CLEBRAN
PAPUR BRO'R PRESELI

Rhif 501 | Sefydlwyd Rhagfyr 1974 | Gorffennaf/Awst 2020 | £1.00

# GWERTHOEDD BRO YN EIN CYNNAL

Pwy fydde'n meddwl y byddai'n rhaid inni fel cymunedau ddangos y fath wytnwch? Ond fe dynnom at ein gilydd mewn sawl modd. Cafwyd ergyd syfrdanol gyda cholli Undeg Lewis, Efail-wen. Ond fe dynnodd y rhwymau at ei gilydd.

Adwaenem Undeg fel un a roddai deyrngarwch llwyr i beth bynnag y gwnâi. Boed fel clerc cynghorau bro, ei gwaith dyddiol, ei chysylltiadau â'r Cardi Bach ac, wrth gwrs, ei theulu.

Byddai ganddi gyfarchiad cyfeillgar o holi hynt pawb a adwaenai o'r tu ôl i'r cownter yng Nghrymych. Ni ellir dweud hynny am bawb. Deuai serchowgrwydd yn ailnatur iddi.

### Wedi gwerthu mas!

Pan ofynnodd cydnabod iddi am gopi o'r 'papur bro gore', a hithau'n gwybod am ei gysylltiad clos â Clebran, ei hateb oedd, 'mae'n ddrwg 'da fi ond ma'r Cardi Bach wedi gwerthu mas'! Roedd yr adnabod yn treiddio o dan yr wyneb.

Rhyfeddwn at y modd y trodd y teulu, trwy arweiniad Gwyndaf, gyfnod o adfyd yn wynfyd trwy godi dros £38,000 mewn byr amser at ddefnydd Ysbyty Glangwili. Mae hynny yn dweud rhywbeth am ruddin y gymdeithas.

Rhyfeddwn hefyd at y modd y bu cymaint o wirfoddoli er mwyn delio â phandemig y coronafeirws. Aed ati yn ymarferol i greu cyfarpar addas heb ddisgwyl arweiniad yr un corff, cyngor na llywodraeth. Ffurfiwyd pwyllgorau argyfwng i ddelio â lles ac anghenion trigolion bregus ac oedrannus.

### Cyrraedd y drws

**Nid oedd angen i neb a oedd yn hunan ynysu mewn gwirionedd i fod ar eu pennau eu hunain. Trefnwyd bod cynhaliaeth a meddyginiaeth angenrheidiol yn cyrraedd carreg y drws. Parchwyd y canllawiau ynghylch cyfyngu teithiau angenrheidiol. Wedi'r cyfan y nod oedd curo'r corona. Gwelir hynny o ddarllen adroddiadau tri o gynghorwyr sir yr ardal yn y rhifyn hwn.**

Rhwystredig a gofidus oedd canfod cynifer oedd yn teithio o bellter i'r ardal am resymau gwantan gan beryglu ein hiechyd am y medren nhw, heb yn wybod iddyn nhw eu hunain, fod yn cludo'r haint.

Tai gwyliau ac ail-gartrefi oedd y gyrchfan gan amlaf. Gwelwyd y ffenomen anghyfrifol honno ar ei gliriaf o ddarllen bwletinau dyddiol Siân Penfro ar ei thudalen gweplyfr.

### Dibynnu ar dwristiaeth

Nid oes gwadu ein dibyniaeth ar y diwydiant twristiaeth. Ond gall fod yn gleddyf dau finiog. Nid da o beth gadael i ymwelwyr osod telerau ein byw a'n bod dyddiol.

Mae gennym gymdeithas sydd angen ei gwarchod. Ni ddylai fod yn fater o ganiatáu iddi oroesi rhywsut rhywsiap. Ond rhaid iddi gryfhau yn ei nerth ei hun.

Un arwydd o hynny yw'r modd yr aeth nifer o'r capeli ati'n ddyfeisgar i gynnal oedfaon ar-lein. Beth ddaw o hynny wedi i'r cau lawr ddod i ben? Fe fu Eurfron Bowen wedyn yn chwarae holl emyndonau Caneuon Ffydd tra roedd wedi hunan ynysu.

### Amaeth yn asgwrn cefn

Yr un pryd da oedd gweld y gymuned amaethydol yn dal ati trwy'r tew a'r tenau. Mae'r tywydd yn gyfaill ac yn elyn iddyn nhw. Bygythiadau allanol sydd yn eu poeni megis y cytundebau masnach bwyd pan ddaw Brexit i rym. O leiaf profodd prysurdeb y tractorau a'r perci gloyw wedi'r cynaeafu mai nhw yw asgwrn cefn y fro. Mae'r cyfan wedi ymgordeddu'n un clytwaith amrywiol megis siaced fraith.

**Winnie'n coginio (tud. 9)**



**Dirgelwch y garreg fedd (tud. 12)**



**Ugain mlynedd ers 'Imbed, Imbed' (tud. 22 -23)**



**'Hyd y Pwrs' (tud. 36)**

**Newid Hinsawdd (tud. 37)**

# CLEBRAN Papur Bro'r Preseli

**Cadeirydd**: Rachel James
**Is-Gadeirydd**: Llinos Penfold
**Ysgrifennydd**: Cris Tomos,
Pant yr Ysgol, Hermon, Y Glôg,
Sir Benfro. SA36 0DT.
(01239) 831962 / 07974 099738
E-bost gweinyddol: cristomos831@gmail.com
**Trysorydd**: Dylan Thomas
(01239) 831163
**Trefnydd Hysbysebion**:
Siân Elin Thomas, 15 Llain Drigan,
Crymych, Sir Benfro. SA41 3RF.
(01239) 831163
E-bost: dylanthomas191@btinternet.com
**Trefnydd Clebran drwy'r Post**:
Lona Tomos (01239) 831962
**Colofn y Dysgwyr**: Susan Carey
(01239) 820822
**Colofn 'Pori 'Mysg y Geirie'**:
Rachel James (01239) 841457

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

**Pob cyfraniad i'w dderbyn erbyn yr 20fed o'r mis. Cysylltwch â'r gohebydd lleol neu os yn bosib anfoner yn uniongyrchol yn electroneg at: clebran@mentersirbenfro.com neu golygydd y mis.**

**Cyhoeddwyd Clebran gan y Bwrdd Golygyddol ac fe'i cysodwyd a'i argraffwyd gan Argraffwyr E. L. Jones, Aberteifi.**

**Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yng ngholofnau'r papur.**

**Mae gan Clebran dudalen ffesbwc hefyd. Gosodir darnau o newyddion, ynghyd â lluniau, arno'n gyson rhwng pob rhifyn. Trowch ato.**

**Mae CLEBRAN yn cydio ac yn treiddio i lefydd nad yw papure bro eraill yn eu cyrraedd.**

**Mae'r defnydd o luniau lliw yn rhan naturiol o dudalennau Clebran erbyn hyn. Fydde neb am weld dychwelyd i ddu a gwyn trwyddi draw mae'n siwr. Ond yr un pryd mae'n siwr y bydd rhaid codi'r pris a phrisiau hysbysebu cyn hir er mwyn cyfarfod â'r gost ychwanegol o argraffu.**

**DALIER SYLW**

**Mae rheolau'r gyfraith ar gyhoeddi lluniau o blant ar bapur neu ar y we wedi'u tynhau. O'r herwydd mae'n bwysig bod pob gohebydd sy'n anfon llun ag enw plentyn i'w gynnwys yn Clebran yn gwneud yn siwr ei fod wedi cael caniatâd rhieni neu ofalwyr y plentyn i wneud hynny. Diolch.**

# GOHEBYDDION LLEOL

| | | |
|---|---|---|
| **Abercych**: Dewina George | (01239) 841229 | george@machineryandspares.co.uk |
| **Blaenffos**: Eileen Thomas | (01239) 841528 | |
| **Boncath**: Nyfed Griffiths | (01239) 841823 | nyfed.griffiths@btinternet.com |
| **Brynberian**: Gillian Lewis | (01239) 891387 | elfedmlewis@btinternet.com |
| **Bwlch-y-groes**: Sharon Harries | (01239) 698605 | arwynharries@btinternet.com |
| **Capel Newydd**: Wendy Lewis | (01239) 841242 | wendy.2lewis19@gmail.com |
| **Cilgerran**: Bethan Phillips | (01239) 614321 | cortinaewp@aol.com |
| **Cilrhedyn**: Meinir James | (01239) 698687 | |
| **Crymych**: Siop Siân | (01239) 831230 | |
| Elizabeth John | (01239) 831640 | elizabethjohn13@hotmail.co.uk |
| **Efail-wen**: Angharad Booth-Taylor | (01994) 419221 | angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| **Eglwyswrw**: Eileen Thomas | (01239) 891372 | |
| Miriel Davies | (01239) 891259 | llysybryn@gmail.com |
| **Ffynnongroes**: Awen Evans | (01239) 891637 | alwyn.evans@btconnect.com |
| **Glandŵr**: Mair Davies | (01994) 419455 | mairdavies@btopenworld.com |
| **Hermon**: Gwenda Mathias | (01239) 831410 | g.mathias46@btinternet.com |
| **Llandudoch**: Llinos Devonald | (01239) 614661 | llinosmdevonald@hotmail.co.uk |
| **Llanfyrnach**: Joyce Williams | (01239) 831254 | |
| **Llangolman**: Angharad Booth-Taylor | (01994) 419221 | angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| **Llwyndrain**: Beryl Vaughan | (01239) 698394 | |
| **Maenclochog**: | | |
| **Mynachlog-ddu**: Wyn Owens | (01994) 419594 | |
| **Rhos-y-bwlch**: Buddug Harries | (01437) 532652 | buddugh@hotmail.com |
| **Rhydwilym**: Eilir Davies | (01994) 419649 | eilirtyrhos@btinternet.com |

**Beth am wirfoddoli i fod yn ohebydd Clebran yn eich ardal?**

## Golygydd mis Medi:
## HEFIN WYN

hefinwyn367@btinternet.com
clebran@mentersirbenfro.com

**Yn y byd sydd ohoni gwerthfawrogir pe bai pob deunydd yn cael ei anfon yn electronig bellach er mwyn hwyluso'r gwaith golygu.**

**Gofynnir i ohebwyr hefyd i fod yn gyson gyda'u cyfraniadau.**

## Neges Cristnogaeth 21 – 14 Mehefin 2020

# Yr oen bach du


Cefais fy ngheryddu. Ond gan garennydd. A hynny ar fater o oen du oedd ar goll. Gwelwyd ei lun yng nghwmni ci defaid yr un mor ddu ar dudalen gweplyfr. Roedd tynnwr y llun am wybod pwy piau'r ddau. Fe fuon nhw'n crwydro'r pentref ers dyddiau yn hamddenol gyfeillgar yng nghwmni ei gilydd. Roedden nhw'n bartners.

Mentrais y sylw, rhwng difri a chwarae, bod yr oen gwlanddu mae'n siŵr wedi dod o bell. Doedd hynny ddim yn gwneud y tro. Dywedwyd wrthyf y gallai'r fath sylw gael ei ddehongli fel enghraifft o hiliaeth sefydliadol. Ni ddylwn awgrymu nad oedd y fath greadur anarferol mewn gwirionedd yn ei gynefin. Roeddwn yn dangos arlliw o ragfarn. A hynny ar adeg hynod sensitif.

Mae'r genhedlaeth iau yn meddu ar gydwybod effro. Doedd fyw i mi son am ganeuon diniwed ar gyfer plant sy'n cyfeirio at oen bach du. Doedd fyw i mi ddyfalu fod yr oen hwn wedi'i wrthod gan ei gymheiriaid gwlanwyn. P'un a oedd yn swci neu beidio ni ddylid cyfeirio at liw ei got mewn modd a allai fod yn ddiraddiol. A hyn yng nghefn gwlad. Doedd yr un amddiffyniad yn cael ei dderbyn.

Ond mae'r carennydd yn treulio eu hamser ar dudalennau gweplyfr yn llyncu pob math o wybodaeth. Roedd hanes yr oen ym mhentref Mynachlog-ddu yr un mor gyfarwydd â hanes George Floyd yn Minneapolis iddyn nhw. A'r un mor fyw. Persbectif. Wrth i'r byd fynd yn llai mae'r gri i ganiatáu i bawb anadlu'n ddilyffethair yn mynd yn fwy.

Gwelais innau'r ben-glin wen yn gwasgu ar wddf du am wyth munud a phedwar deg chwe eiliad. Clywais y canu ysbrydoledig yn gyfuniad o ymdrech corff, enaid a chalon. Gwrandewais innau ar y Parch Al Sharpton yn cyfeirio at adnodau yn Llyfr y Pregethwr sy'n son bod yna amser



priodol i bob dim. Mae'n amser nawr meddai i godi ei bobl o'u caethglud a symud y ben-glin orthrymus naill ochr unwaith ac am byth.

Afraid dweud na fyddai'r un ohonom yn cymeradwyo gweithred gŵr hysbys mewn siwt las a ddaliodd Feibl uwch ei ben ar gyfer camerâu'r byd yn hytrach nag agor ei gloriau a dyfynnu ohono. Afraid dweud na fyddem yn cymeradwyo ymddygiad sy'n annog rhaniadau yn hytrach na cheisio creu undod a chyfartaledd i bawb. A naw wfft i sylwadau cyfeiliornus.

Ond cofiais am bregeth bwerus Martin Luther King ar y testun "Pe bai un ohonoch yn mynd at gyfaill ganol nos a dweud wrtho, 'Gyfaill rho fenthyg tair torth i mi, oherwydd y mae cyfaill i mi wedi cyrraedd acw ar ôl taith, ac nid oes gennyf ddim i'w osod o'i flaen". Dadleuai bod ei bobl yn y 1970au ar daith barhaus ac yn disgwyl eu siâr o'r dorth pa bynnag adeg o'r dydd oedd hi. Maen nhw'n dal i ddibynnu ar friwsion o ran cyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder cyfreithiol.

O ran yr oenig deallaf erbyn hyn mai ef mewn gwirionedd oedd yn bugeilio'r ast am ei bod yn oedrannus ac yn llesg.

Anhysbys.

*Sefydlwyd Cristnogaeth 21 yn y flwyddyn 2007, a dilynwyd hynny gyda chreu gwefan a lansiwyd yn swyddogol ar Ragfyr 1af 2008. Denodd hynny gryn sylw ar y radio, ar deledu, yn y cylchgronau enwadol ac mewn papurau dyddiol ac wythnosol. Y bwriad oedd cyhoeddi erthyglau ar wahanol bynciau fel bod modd cael llwyfan i safbwyntiau nad ydynt yn cael sylw yn y papurau enwadol.*

*Maes o law, dechreuwyd dosbarthu neges wythnosol drwy e-bost i bawb sydd wedi mynegi dymuniad i'w derbyn, sef cyfanswm o tua 250 o bobl i gyd. Dyma'r e-fwletin wythnosol fel y byddwn ni'n cyfeirio ato. Caiff y neges hon ei hysgrifennu gan griw o tua 30 o unigolion sy'n cymryd eu tro i'w llunio, ac mae'r ymateb i'r negeseuon hyn yn gynnes a chefnogol iawn, hyd yn oed os nad yw pawb yn cytuno â'r cynnwys bob tro.*

## DIHAREB Y MIS

Yr oen yn dysgu i'r ddafad bori.

PRITCHARD
a'i Gwmni
CYFRIFWYR SIARTREDIG ARDYSTIEDIG
Mae gennym bartneriaid a staff
sy'n medru cynnig gwasanaeth Cymraeg cyflawn yn y meysydd canlynol:
- Hunan Asesiad
- Paratoi cyfrifon busnesau a'u cyflwyno i Gyllid y Wlad
- Ffurflenni Treth Incwm unigolion
- Treth ar Werth a thalu wrth ennill
- Cyngor ar bob agwedd o drethiant

74 Stryd Fawr, Abergwaun (01348) 873263
47 Stryd y Santes Fair, Aberteifi (01239) 612475 / 612583
15-17 Castle High, Hwlffordd (01437) 764785

# NEWYDDION Y FRO

## Blaenffos

Llongyfarchiadau i Hafwen a'i phriod Matt Rendle ar enedigaeth merch fach Ada Haf. Mae ei chwaer fawr Isla wedi dotio arni ac felly hefyd mam-gu a thad-cu, Geraint ac Ann Williams, Tŷ Newydd

Pob dymuniad da i Ivy Edwards, a Betty Wood a fu yn Ysbyty Llwynhelyg yn ddiweddar.

Bu farw Catherine Davies, Whipland wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Llwynhelyg. Roedd ei hangladd ar yr 21 o Ebrill a chladdwyd ei llwch ym medd y teulu ym Mlaenffos. Gweinyddwyd gan y Parch Eirian Wyn Lewis yn absenoldeb Y Parch Rhosier Morgan. Roedd Catherine yn aelod ffyddlon tu hwnt yn y capel a bydd set y gwt yn wag iawn hebddi. Gedy fwlch mawr ar ei hôl.

Cydymdeimlir â Huw Thomas a'r teulu ym Maencoch ar farwolaeth ei dad, tad yng nghyfraith, tad-cu a hen dad-cu.

Cydymdeimlir â Tudor Harries a'r teulu, Pentalar ar golli nai a chefnder ifanc yn y Bontfaen.

Cydymdeimlir â Brenda James a'r teulu ar golli perthynas iddynt sef Huw Davies, Rhosfarced, Brynberian.

## Boncath

Trist nodi dwy farwolaeth yn yr ardal ym mis Ebrill. Cludwyd y ddwy ddynes, sef Catherine Davies, Whipland Bach, a Mair Davies, Green Acres, i Ysbyty Llwynhelyg ar wahanol amserau. (Nid oedd y ddwy yn perthyn i'w gilydd.) Mae gen i gof o Catherine yn gweithio yng nghegin Ysgol Gynradd Blaenffos, pan oeddwn i'n grwtyn, ac amdani hi yn gofyn yn garedig i mi os hoffwn i gael ail helpin o gwstard gyda fy mhwdin - chwarae teg! Roedd yn byw rhwng Boncath a Blaenffos.

Roedd Mair yn gymeriad bywiog, unigryw, yn y pentref, ac yn barod i siarad â chi pan fyddech ar y stryd. Ymbriododd â'r diweddar Defi Davies, Pantyrhaidd, a bu'r ddau yn byw ar y fferm, hyd nes i Defi ymddeol, pan symudon nhw i Green Acres yn y pentref. Roedd y ddwy ddynes fu farw, yn aelodau o Gapel y Bedyddwyr Blaenffos, ond dymuniad Mair oedd cael ei chladdu ym mynwent Capel Fachendre, Boncath. Cydymdeimlir â pherthnasau'r ddwy.

Mae Emma Makepeace, Tŷ Calheta, wedi cymryd at gynnal Siop Swapio yn Neuadd y pentref ar brynhawn Dydd Iau o 1y.p. i 3y.p. pob wythnos mewn ysbryd cymunedol yn ystod y pla coronafeirws. Diolch iddi am wneud. Mae'n braf cael dweud bod y Neuadd wedi derbyn £10,000 gan y llywodraeth, tuag at ofalu a chadw'r neuadd, a cholli incwm yn ystod y Covid-19.

Llongyfarchiadau i Mrs. Pearl Davies, Maesybedw, ar ddathlu ei phedwar ugain pen-blwydd ar ddechrau mis Mai. Mae'n fam i wyth o blant, yn cynnwys Kathy Davies, rheolwraig Siop Boncath, ac yn fam-gu i Lisa Pegg, Sŵn y Cardi, sy'n trin gwallt, gwraig James, ac yn hen fam-gu i Leah, Talullah, a Vinney, Sŵn y Cardi. Llongyfarchiadau hefyd i Siân Davies, Fferm y Kings ar ei 60 pen-blwydd ar ddiwedd mis Mai. Mae'n wraig i Puw, yn fam i Marged a Steffan, ac yn fam-gu i Gruffydd, mab Marged a Ben.

## Brynberian

Cydymdeimlwn â Derick a Sandra Llewelyn, Tŷ Mawr, a Dilwyn ac Isabel Llewelyn, Y Gorlan, a'u teuluoedd ar farwolaeth brawd i Derick a Dilwyn sef Dai Llewelyn a fu farw ym mis Mawrth.

Cydymdeimlwn â Dilys Davies, Rhosfarced, ar farwolaeth Huw, ei gŵr, ac â'r merched, Rhinedd a Llunor, a'u teuluoedd, o golli tad, tad yng nghyfraith a thad-cu. Fe fu Huw farw ym mis Mai a chynhaliwyd gwasanaeth angladdol preifat ar lan y bedd ym mynwent Eglwys Llandudoch.

## Bwlch-y-groes

Cydymdeimlwn gyda Mrs Frances Savins a John a Gwenda ar ôl colli Owen Savins, Fferm Nantlledfron yn ddiweddar. Hefyd, cydymdeimlwn â theuluoedd Emyr Evans, Garregwen, Cilfowyr ar ôl brwydro afiechyd creulon.

Hoffai Jean ac Eirwyn, Llainfawr, ddiolch o galon i bawb a ddanfonwyd cardiau/ anrhegion a galwadau ffŏn. Casglwyd £550 tuag at M.N.D. Dyma lun o Eirwyn a Jean ar y Cart a'r Ceffyl, wedi dathlu eu priodas aur mewn steil er gwaethaf yr amgylchiadau Covid 19.






Gwen Morgan

Llongyfarchiadau i Gwen Morgan Waunlwyd, Bwlch-y-groes sydd wedi codi dros £1,100 i gefnogi Cymdeithas gofal dwys, achos teilwng Iawn o dan yr amgylchiadau diweddara. Fuodd Gwen yn son am ei Thic Tocathon ar y radio gyda Chris Evans a hefyd ar raglen 'Heno'. Da iawn ti Gwen, mae'r gymuned yn prowd iawn ohonot.

Da Iawn hefyd i Gwenno Francis, Waunlwyd sydd wedi bod yn brysur yn addurno Enfys hardd i ddweud diolch i GIG Cymru. Pen-blwydd hapus i David George sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Nid oedd y feirws wedi atal Clwb Gwawr Clydau rhag cwrdd ym Mis Ebrill. Sefydlwyd dolen fideo i bawb cael gweld ei gilydd. Am wyth y gloch fe wnaeth pawb gymeradwyo GIG Cymru am eu gwaith arbennig. Ar ôl hynny cafwyd cwis yng ngofal Gwenan Phillips. Cafwyd llawer o hwyl a diolch i Gwenan am drefnu.

## Capel Newydd



Ma' Angharad Lloyd, 7, Maes Cilgwyn, wedi bod yn cadw'n brysur dros y cyfnod clo. Oherwydd ei bod yn dioddef o'r cyflwr MS, mae wedi penderfynu cefnogi'r Gymdeithas drwy gymryd sialensiau er mwyn codi arian i'w helpu. Ers iddi ddechrau diwedd mis Mawrth, mae Angharad wedi cyflawni sawl gwahanol sialens, a'r hyn sydd o'i blaen yn ystod yr wythnosau nesaf yw gwneud cant o filltiroedd !

Tra roedd y tywydd yn braf, fe aeth ati yn yr awyr agored o flaen y tŷ ar y felin draed (treadmill). Cafodd gefnogaeth y pentrefwyr a chasglwyd tipyn o arian ymhen rhyw ddwy awr o amser. Ar hyn o bryd mae'r casgliad wedi croesi'r £2K, ac yn dal ar agor i dderbyn mwy o roddion ariannol ar ei thudalen "Go Fund Me." Da iawn Angharad am wynebu'r sialensiau 'ma a phob lwc gyda'r her nesa. Cer amdani a dal ati.

Enillwyr Clwb Cant Cronfa'r Cae Chwarae ym mis Mawrth oedd Geoff Mackrell, Marian Pierce a Gwyneth Court-Newman, a'r enwau a ddewiswyd gan y cyfrifiadur ym mis Ebrill, oedd Claire Siobhan, Wendy Lewis a Rachel Pierce.

Enillwyr tynfa mis Mai oedd Warren Jenkins, Rachel Pierce a Marian Pierce.

Cydymdeimlir ă deiliaid Tŷ Newydd, sef Emma Clarke a'r teulu, ar golli ei mam-gu - Margaret Francis o Grymych, gweddw'r diweddar Ken Francis. Preifat oedd ei hangladd yn sgil y sefyllfa bresennol, a chofir yn annwyl am y ddau yn ymweld ă Chapel Newydd gyda'r rownd laeth yn y 70au a'r 80au. Cofiwn hefyd am Joan Howell, Littlehome, yn ei hiraeth am ei brawd, y diweddar Gethin Griffiths , Cilgerran, a chydymdeimlwn ă'r teulu cyfan ar y golled.

Gwerthfawrogir gwaith Aled Lewis a'i fab Owen am eu gwaith gwirfoddol yn peintio'r arosfan bws ar ran y Cyngor Cymuned. Mae'n edrych yn ddestlus iawn – diolch fechgyn.

Mae nifer o drigolion y pentref yn wir ddiolchgar i'r tîm o wirfoddolwyr sy'n fwy na pharod bob amser i gynorthwyo gyda'r siopa, neu i ymgymryd ag unrhyw gymwynas angenrheidiol yn ystod yr amser rhyfedd a gofidus hwn. Diolch o galon i Aled Lewis, Hedydd Phillips, Elizabeth Hall, Lucy ac Edward Collins, a Lynda a Bradley Williams am eu teyrngarwch a'u gofal cyson drwy'r cyfnod clo. Diolch yn arbennig i'r Cynghorydd Sir lleol, John Davies, Cwmbetws am sefydlu'r grŵp.

Dymuniadau gore a phob lwc i Hannah a Pheobe Jones, a fydd yn symud ymhen hir i bentref Llechryd, ac sy'n brysur ar hyn o bryd yn paratoi'r tŷ.

Cyfarchion pen-blwydd i Lucy Collins fu'n dathlu ar 29ain o Fehefin, a dymuniadau da i Gwyneth a Harley a ddathlodd 17 mlynedd o fywyd priodasol ar Fehefin 6ed.

## Cilgerran



*Eurfron Bowen*

Mae Eurfron Bowen yn byw yn Llwyncelyn Uchaf, Cilgerran. Mae yn aelod o Gôr Crymych ac yn organydd yng Nghapel Tyrhos, Rhoshill. Dros y clo mawr mae hi wedi bod yn ymarfer ei dawn gerddorol trwy chwarae pob emyn yng Nghaneuon Ffydd. Nid yn unig chwarae'r tonau o'r dechrau i'r diwedd ond hefyd chwarae pob pennill o bob emyn. Y drefn oedd chwarae chwech neu saith emyn bob dydd yn y bore gan greu patrwm i'w diwrnod dros gyfnod o bron i fis. Trueni na fyddem wedi gallu recordio'r gamp. Llongyfarchiadau i Eurfron ar gyflawni'r fath orchest.

Dymuniadau da i Llwyd Griffiths sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Cydymdeimlwn â Peter Williams a'r teulu ar farwolaeth Ceinwen ei wraig yn ystod y mis diwetha'. Rydym yn meddwl amdanynt yn eu hiraeth.




Diolch yn fawr i Siop y Pentre a'i chynorthwywyr dros y pandemig am gadw'r gymdogaeth mewn nwyddau cyffredinol. Rydym yn ffodus iawn i gael gwasanaeth serchog a brwdfrydig bob amser.



Hyfryd gweld Heledd Gwynn, Lyndhurst gynt, ar y rhaglen deledu, ‘Heno’, yn ddiweddar. Mae wedi ei henwebu am yr ail flwyddyn yn olynol am wobr Ian Charleson ym myd theatr, sef gwobr y Sunday Times a’r National Theatre i actor dan 30 oed am eu perfformiad mewn drama glasurol. Enwebwyd Heledd am ddwy ran yn ystod 2019, yn fwya diweddar am y brif ran yn Hedda Gabler yn y Sherman yng Nghaerdydd. Da gweld bod yr arweiniad gwych yn Ysgol y Preseli a’r Cilgerran Players wedi dwyn ffrwyth!

Ac ar ryw olwg ma’r cyfnod clo wedi bod yn fanteisiol i Emyr Phillips. Caiff e ddweud am hanes y landrover: Land Rover Series 1 AEJ 491 1950



Prynais y Land Rover hon yn lleol tua thair blynedd nôl yn ddarnau mân a gyda llawer o ddarnau yn ishe. Nid oedd wedi bod yn gyfan ers dechrau’r nawdegau ac wrth i amser fynd yn ei flaen roedd mwy a mwy o ddarnau yn mynd ar goll. Dros yr amser, dwi wedi chwilio am y rhannau ac wedi bod yn lwcus iawn i ddod o hyd i bron popeth erbyn hyn, diolch i’r we. Yn ystod yr amser hefyd daeth y cerbydau hyn yn boblogaidd gan fod adeiladu Land Rover wedi gorffen yn gyfan gwbl.

Y Series 1 oedd y math cyntaf o Land Rover a adeiladwyd gan ddechrau yn 1948. Prynwyd AEJ 491 gan Coop Ffermwyr Dyffryn Teifi (Aberteifi) yn 1950 yn newydd a’i ddefnyddio fe am ddeg mlynedd yn yr ardal i ddosbarthu nwyddau a pheiriannau i ffermydd. Wedi hynny aeth i Llechryd am amser byr ond wedyn dod 'nôl i Popit ac yn cael ei ddefnyddio gan Gwmni Cychod Popit. Mae arwyddion o’i amser gyda’r Coop ac yn Popit wedi eu darganfod dan yr haenau paent ar y drysau, ac fe fydd y rhain yn cael eu cadw fel ma’ nhw. Nid yw wedi bod mas o ardal Aberteifi o gwbl.

Ma’r gwaith o adnewyddu wedi dod mlân yn gloi dros y Clo Mawr gan fy mod i’n gorfod aros wrth y post gartre. Gobeitho fydd hi allan ar yr hewl erbyn diwedd yr haf gyda dim ond gwaith ar y ffrynt ar ôl.



Dyma ddrws y Land Rover gyda’r arwyddion gwreiddiol yn dal o dan yr haenau paent. Yn dechrau dod i’r golwg yn y canol mae yna arwydd am feler Welger o’i dyddiau gyda’r Coop yn Aberteifi.

Os oes rhywun â llun o’r cerbyd hwn rhowch wybod. Dwi heb weld un to. Diolch yn fowr.


**E. P. PARRY**
M. R. Pharm. S.
**Y Fferyllfa, Crymych**
**✆ 01239 831243**
Gweinyddion GIG a Phreifat.
Moddion Fferylliaeth.
Profion Beichiogaeth.
Gofal am anataliad a stoma.
Cyfarpar llawfeddygol a dresinau.
☆☆☆
**ASIANTAETH BAPURAU**
Papurau dyddiol a lleol,
Cylchgronau, Anrhegion,
Nwyddau Ysgrifennu, Losin
Gwin a Gwirodydd,
Nwyddau Cosmetigau

**Maenclochog Hardware**
**a Chanolfan Ceffylau Maenclochog**
A.B ac M.A. Williams
**✆ 01437 532478**
Trebengych, Maenclochog
Clunderwen, Sir Benfro. SA66 7RH
Rhif Ffôn Gartref: **01437 532557**
**Popeth at ddefnydd Ffermwyr a Chrefftwyr o Fenyg i Fyllt!**

**AWEN TEIFI**
Dewis da o lyfrau Cymraeg
i blant ac oedolion,
hefyd cardiau a recordiau.
Ar agor 9yb–5yh
Llun i Sadwrn
(01239) 621370
23 Stryd Fawr,
Aberteifi. SA43 1HJ

# Crymych

Diolch i Iwan Ward a'i deulu am yr ymdrech i godi calon y pentrefwyr a rhoi diolch i holl weithwyr yr NHS bob nos Iau ers wythnosau lawer. Roedd y miwsig i'w glywed am gryn bellter. Diolch hefyd i'r gyrwyr tractor, a'r frigâd dân am ychwanegu eu cyfraniad hwy at y noson.



*Yr olygfa yn Neuadd y Farchnad lle mae'r masgiau'n cael eu gwneud*

Yn wreiddiol penderfynodd Project Cymunedol Crymych ail wneud y parc chwarae a cheisio codi £500 at wneud y gwaith. Yna yn dilyn marwolaeth Undeg Lewis o'r Coronafeirws sbardunwyd y grŵp gan Mathew Parry, Frenni Transport, a nifer fawr o aelodau'r pentref i geisio ymateb i argyfwng prinder offer amddiffynnol gweithwyr rheng flaen y gymuned leol ac ar draws Cymru. Cynyddodd y gronfa ariannol i £12,500 ac aed ati i greu cannoedd o fasgiau i amddiffyn gweithwyr Gofal ac Iechyd. Bu'r frigâd dân lleol yn helpu i'w dosbarthu.

Llongyfarchiadau i Hafwen (Pencware) a Tom ar enedigaeth merch fach, Lili Mae. Llongyfarchiadau i Glenys Reynolds a Dawn Phillips ar ddod yn fam-gu a hen fam-gu i Tom, mab bach Daniel a Vicky Phillips.

Llongyfarchiadau i Glenys a Dai Williams ar ddod yn fam-gu a thad-cu unwaith eto. Ganwyd merch fach, Loti Marged i Nerys a Gwyn a chwaer fach i Carys.

Llongyfarchiadau i Arwel Llywelyn a Catrin Aur ar enedigaeth mab bach, Hedd, ŵyr annwyl i Brian a Marian Llywelyn, Cwmbach. Llongyfarchiadau i Sioned Boyle a Shaun ar enedigaeth eu merch fach, Ffibi Mai. Mae mam-gu a thad-cu, Wedros ac Eirian, Maes Meigan, wrth eu bodd.

Pob cydymdeimlad â Len Bowen a'r teulu ar farwolaeth ei briod Olwen. Cydymdeimlir â Brian ac Yvonne Vaughan ar farwolaeth ei chwaer Elma. Cydymdeimlir â Paul Devonald, Gerallt a Sioned, Esgairordd ar farwolaeth Catherine Davies, Whipland.

Cydymdeimlir â Wyn a Heather Francis ar golli Margaret Francis, mam a mam yng nghyfraith, mam-gu a hen-famgu. Cydymdeimlir â Gaynor ac Alan Davies, Llain Drygarn ar farwolaeth Eluned Lewis, modryb Gaynor.

Pen-blwydd hapus iawn i Delyth Davies, Rosehill a Dawn Phillips, Maes y Frenni sydd wedi bod yn dathlu yn ddiweddar a'r un dymuniadau da i Gill Thomas, Maes Meigan ac i Julie Higginson a fydd yn dathlu penblwyddi arbennig ym mis Gorffennaf. Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus i Brenda Lewis, ac i Len Bowen fydd yn dathlu eu pedwar ugain oed cyn bo hir.

Pob dymuniad da i Richard a Laurie, Ellie ac Alex sydd wedi symud o Faes yr Yrfa i'w cartref newydd yn y pentref.

# Efail-wen



Mae ein diolch yn enfawr i Carwyn James, Sally a'r staff i gyd yn Siop y Glandy am wasanaethu a gofalu am drigolion Efail-wen a'r ardal eang yn ystod y clo mawr yma. Trefnwyd i ddosbarthu bwydydd i'r rheiny oedd yn hunan-ynysu gan dîm o wirfoddolwyr ac yn eu plith Ben Williams, ar y dde, uchod. Daeth y postmon â gwên i'n hwynebau hefyd. Doedd ddal ym mha wisg y deuai Cefin Vaughan heibio.



Mae Wil John (Wil Crofft) yn ben garddwr erioed. Tynnwyd y llun uchod yn gynnar yn y tymor. Gellwch ddychmygu sut olwg sy ar yr ardd erbyn hyn. Gan ei fod yn byw rownd y gornel o Siop y Glandy bu'n gwerthu rhai o'i lysiau cynnar o'r tŷ gwydr yn y siop gan gyfrannu'r holl arian gwerthiant at y gwaith gwirfoddol yng Nghrymych i wneud masgiau. Roedd canmoliaeth uchel i safon y betys, tomatos, letys, ciwcymbyrs a'r cennin. Fe'u gwerthwyd mewn byr o dro. Cyfrannwyd £264 at y fenter yng Nghrymych.

Pritchard Cowburn
OPTICIANS
WWW.PRITCHARD-COWBURN.COM
neubau EYEWEAR
TITANflex
OAKLEY
Ray-Ban
BOLON
Silhouette
01239 612004
19 Pendre, Aberteifi
01834 861660
Spring Gardens, Arberth

Mae gweithred Wil yn enghraifft arall o'r modd y mae'r gymuned wedi tynnu at ei gilydd.

Wedi gwasanaethu fel gweinidog Capel Annibynwyr Nebo, Efail-wen a'r ofalaeth am ddeng mlynedd ymddeolodd y Parchedig Emyr Wyn Thomas ddiwedd mis Mawrth gan adael bwlch mawr ar ei ôl yn y gymuned. Oherwydd y feirws nid oedd modd ffarwelio ag ef a'i wraig, Catrin, yn briodol, ond hyderwn y gallwn wneud hynny wedi codi'r "cloilawr".

Mae Emyr a Catrin yn ymddiddori yn yr Ŵyl Ban-geltaidd ac yn aelodau o Glwb Carafanwyr Cymru gan fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol yn rheolaidd.

Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd ym Mhentre Morgan, Bronwydd Arms a hefyd pob llwyddiant i Catrin yn ei gwaith fel gweinidog newydd gofalaeth Providence, Llangadog a Bethlehem, Dyffryn Ceidrych.

Gobeithio y cawn eich cwmni yn Nebo eto'n fuan. Oherwydd y feirws Corona ni fydd gwasanaethau'n cael eu cynnal yng Nghapel Nebo am y tro.

Gyda thristwch clywsom am farwolaeth Basil Davies, Pantyblodau, ddechrau mis Mehefin. Roedd Basil a'i briod Mary'n aelodau ffyddlon yn Nebo, bydd colled fawr ar ei ôl.

Bu dathlu yng nghartref Liz Llewelyn yn ddiweddar wrth iddi gyrraedd 60. Cafodd gacen arbennig wedi ei gwneud gan Osian, Crwst. Llongyfarchiadau gwresog. Bydd mwy o ddathlu wedi codi'r "cloilawr" yn siŵr!

Dymunwn wellhad buan i Dewi Bowen, Cartrefle, sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar.




Llongyfarchiade mawr i Gwyndaf Lewis am redeg 50 cilometr er mwyn codi arian er cof am ei fam, Undeg. Gyda chefnogaeth aelodau eraill y teulu rhedodd o amgylch Efail-wen gan gadw at y canllawiau pellter gan wahodd pobl i gyfrannu at y gronfa. Trosglwyddwyd dros £38,000 at ddefnydd Uned Gofal Dwys, Ysbyty Glangwili. Swm syfrdanol o gofio mai'r nod gwreiddiol oedd codi £500. Ond roedd y swm hwnnw wedi'i gyrraedd o fewn hanner awr o redeg o amgylch Feidr Sion. Gyda llaw, wês rhywun yn gwybod pam y mae'n cael ei galw yn Feidr Sion? Pwy oedd Sion? Perthyn i Sion Cwilt? Yn y llun mae Rhodri, Gwyndaf, Nia a Tudur.

## Eglwyswrw

Gyda thristwch rydym yn cofnodi marwolaeth Gaynor Jenkins, Crosshouse, yn 62 oed, ac yr ydym yn cydymdeimlo yn fawr â'r teulu. Athrawes Ffrangeg yn Ysgol y Preseli oedd Gaynor ac ers ymddeol fe wnaeth gyfrannu llawer i fywyd cymdeithasol y pentref. Gaynor oedd ysgrifennydd y Neuadd Gymunedol - Yr Hen Ysgol, ac ers iddi gymryd y swydd fe aeth ati gydag eraill i gynnal gweithgareddau i roi cyfle i drigolion yr ardal gymdeithasu.

Mae'r Clwb Crefft a Chlonc sydd wedi bod yn cwrdd unwaith yr wythnos yn boblogaidd iawn a hefyd y Bore Coffi unwaith y mis, a hynny nid i godi arian ond i gymdeithasu. Ac yn yr hwyr bu'n cynnal Nosweithiau Cwis, a hefyd Clwb Ffilm.




*Pa wisg fydd gan Cefin y Postmon heddi tybed? Llwyddodd i amrywio bron yn ddyddiol er difyrrwch i bawb yn ystod y cyfnod cloi o amgylch Efail-wen.*

**M. L. Davies**

Addurnwyr



Awelfryn,
Tegryn,
Sir Benfro.
SA35 0BE

07811 871423
07971 545264
(01239) 698320

Llynedd fe drefnodd, gyda Midway Motors, daith pum diwrnod i Ffrainc a Gwlad Belg i ymweld â beddau'r rhai a enwyd ar Gofeb Rhyfel y pentref. Bydd y daith yn aros yn y cof am amser hir.

Bu'r gwasanaeth angladdol ym Mharc Gwyn ar 20fed o Fai. Ac i ddangos ei gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan Ymddiriedolaeth Paul Satori mae Nia, ei merch, yn codi arian i'r elusen, Ar ddydd Mercher, y 1af o Orffennaf, aeth ati i eillio ei gwallt. Hyderwn iddi gael cefnogaeth hael.

Ar Ddydd Sadwrn, Mai 16, bu farw Christine Rees ar ôl brwydr fer gyda chanser. Bu Christine yn athrawes yn Ysgol Gynradd Eglwyswrw am flynyddoedd lawer a hefyd yn weithgar iawn gyda Theatr Aberteifi ac yn gefnogol iawn o Theatr Mwldan. Cynhaliwyd yr angladd ym mynwent Sant Cristiolus, Eglwyswrw ar Fai 23ain. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i'r teulu oll.



Ar nodyn mwy calonogol, mae Sara Megan Edwards, merch 26 oed o'r pentref, sy'n gweithio mewn rôl rheoli i'r GIG yng Nghaerdydd, wedi bod yn wael iawn gyda'r feirws Covid-19 ond bellach yn gwella'n araf. Er na fu'n rhaid iddi gael triniaeth ysbyty roedd y cyfnod adfer a gwaredu'r haint yn hir ac anodd. Dymunwn llwyr wellhad buan i Sara.

Dymunwn wellhad buan i Gwyneth Johnson, Penrhiw sydd newydd ddod adre ar ôl gwario cyfnod yn yr ysbyty.

**Clwb Cant y pentref.**

Enillwyr mis Mawrth - Anita Harries £25; Ken Rees, £15; Betty Wilson, £10.
Enillwyr mis Ebrill - Robert Smith, £25; Crefft a Chlonc, £15; Vicky Reed, £10.
Enillwyr mis Mai - Peter Jones, £25; Leisa John, £15; Jean Webb, £10.
Enillwyr mis Mehefin – Carys a Sara Jones, £25; Robert Griffiths, £15; Enid Cole, £10.

Yn ystod yr amser anarferol a phryderus hwn, gyda llawer yn gyfyngedig i'w cartref, mae wedi bod yn galonogol profi cymaint o garedigrwydd a haelioni, gyda phobl yn mynd allan o'u ffordd i helpu ei gilydd.



*Sian Wyn yn ei diogelu ei hun a'i chwsmeriaid*

Yn troi allan ar garreg eu drws pob nos Iau i ddangos eu gwerthfawrogiad i weithwyr rheng flaen fel y GIG, ac yn gofalu am y rhai sy'n cael eu cyfarwyddo i ynysu eu hunain a hynny am wythnosau lawer. Mae Siân Wyn a'i theulu o Brian Llewelyn a'i Ferched draw yn Garej Penfro yn haeddu sylw arbennig, maent wedi mynd y filltir ychwanegol i ofalu am eu cwsmeriaid ac i'w cadw'n ddiogel.

## Glandŵr

Yn oedfa'r Beibl yng Nghalfaria, Login, cymrwyd rhan ar ran Glandŵr gan Mair Davies ac yng Ngŵyl Rhinwedd a Moes yn Nhabernacl Hendy-gwyn cyflwynwyd eitem ar ran Glandŵr gan Hywel Mathias.

Yn oedfa gymun mis Mawrth dewiswyd dau ddiacon newydd sef Gwynedd James a Hywel Mathias, Dymuniadau gorau iddynt.

Dymuniadau gorau i'r Parchedig Emyr Wyn Thomas ar ei ymddeoliad o ofalaeth Capeli Dyffryn Taf sef Brynmyrnach, Cefnypant, Glandwr, Hebron, Llwynyrhwrdd a Nebo ar ddiwedd mis Mawrth. Llongyfarchiadau i Catrin Ann Thomas, ei wraig, ar gael ei sefydlu'n weinidog ar ofalaeth Providence, Llangadog a Bethlehem, Dyffryn Ceidrych a dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd ym Mhentre Morgan.

Pen-blwydd hapus i ddau o aelodau Glandŵr sydd wedi dathlu penblwyddi arbennig ym misoedd Mai a Mehefin, Winston Davies yn 80 oed ac yn falch ei fod yn gwella yn dda ar ôl llawdriniaeth fawr adeg y Nadolig, a hefyd i Delyth Davies, ysgrifenyddes y capel, ar ddathlu 60 oed. Dymuniadau gorau iddynt.

Cydymdeimlwn â Siân Danderi ar farwolaeth ei thad yn ddiweddar.

## Hermon




Gosodwyd Hermon ar y map pan ddangoswyd y rhaglen gyntaf yn y gyfres deledu 'Sioe Fach Fawr' wedi'i recordio yn y Ganolfan. Braf oedd gweld Dyfed Thomas, Berllan yn perfformio eto. Tynnwyd y to i lawr gan Eirwyn Blaensawd yn dynwared synnau anifeiliaid ac roedd gan Winnie Phillips rysait gwreiddiol a dweud y lleiaf.

Cydymdeimlir â Gwenda Mathias ar golli modryb sef Ceinwen Williams, Tyrhos.

Cydymdeimlir â Dorothea York a'r teulu ar golli gŵr, tad a thad-cu sef Derek York, Rose House ar ôl salwch byr.

Yn sgil y Covid 19 mae'r pentref wedi sefydlu ar y Wep Lyfr "Grŵp Helpu Ardal Hermon-Feirws Corona Hunan Ynysu" gydag wythdeg chwech o aelodau wedi ymuno. Mae aelodau ar gael i roi help llaw i unrhyw un sy'n gorfod hunan ynysu yn ystod y cyfnod anodd yma.






Maent hefyd wedi trawsffurfio'r gysgodfa fws yn "Lloches Llyfr" sydd erbyn hyn yn llawn llyfrau, cylchgronau, jigsôs, planhigion ac ati i unrhyw un sydd am helpu eu hunain. Carol ac Amber, Soar, fu'n gyfrifol am beintio ac addurno'r lloches a Mathew, Cartref, roddodd ffenest newydd yno. Mae'r Lloches yn bictiwr erbyn hyn.

Bu Gwenda Mathias yn codi arian tuag at Ambiwlans Awyr Cymru drwy gerdded 160 milltir mewn mis. Casglwyd dros £800. Hoffai Gwenda ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at yr achos teilwng hwn. Bu aelodau a ffrindiau'r Clwb Ffermwyr Ifainc hefyd yn brysur yn codi arian gyda "HER 10 DIWRNOD" gyda cherdded neu seiclo. Casglwyd dros £1,000 tuag at "Cronfa Gwyndaf Lewis" er cof am ei fam, Undeg a "Prosiect Cymunedol Crymych". Llongyfarchiadau mawr iddynt.

## Llandudoch

Cydymdeimlad dwysaf â theuluoedd y canlynol - Willie George, Fferm Trerhys, Llandudoch a David Lloyd, Mariners.

Mae modd cysylltu â Llandudoch -Positive Post ar ffesbwc i gael hanes beth mae rhai o'r pentrefwyr yn neud i gadw'n brysur. Llawer yn cerdded llwybrau'r ardal am y tro cyntaf a thynnu lluniau o'r bywyd gwyllt ar eu taith. Rhai yn nodi eu pen-blwyddi neu benblwyddi priodas - does dim sôn am y feirws ar y wefan yma.




Braf oedd clywed fod Y Felin wedi ail-agor i'r cyhoedd i brynu blawd a bara. Gyda'r wlad wedi cymryd at bobi bara, cacennau, bara brith a phitsas yn y cartref bu prinder blawd am gyfnod yn ystod yr hunan ynysu yma. Gwnaeth Emma Williams, merch Mike a Jane Hall, gymryd drosodd rhedeg y busnes dwy flynedd yn ôl. Yn ei helpu gyda'r gwaith mae Justin Walters a'r ddau wedi bod hyd nawr yn brysur yn paratoi a gwerthu'r blawd i'r busnesau lleol. Nawr maent hefyd yn medru gwerthu i gwsmeriaid sy'n galw yn Y Felin. Os byddwch yn galw yno cofiwch ddilyn y rheolau 'cadw'n saff'.

## Maenclochog



Mae'r merlod mini ar lethre Fwêl Cwm Cerwyn, uwchben Maenclochog, yn dipyn o ryfeddod. Haid o bonis gwynion. Mae'n rhaid eu bod yn mynd nôl i'r cyfnod Celtaidd. Mynnai Aneurin Jones gynnwys caseg wen yn ei luniau breuddwydiol. Yn ôl pob swae ar gefn caseg wen y marchogodd Twm Carnabwth i gyfeiriad Efail-wen i ddinistrio'r iet yn 1839. Ond yn wahanol yw ddyddie e ma'r perci i weld yn loyw a moethusrwydd ymhob annedd. Ma'r perci wedi'u cynaeafu mewn chwinciad gyda chymorth cyfrifiaduron yn trefnu'r peiriannau heb unrhyw chwys bôn braich. Does dim mwg yn dirwyn o'r simneiau. Ac er bod yr ebol yn ddu, yn y man, wrth iddo golli ei got, bydd yn wyn. Ma'r modern a'r cyntefig wedi'u cyfuno. Pori porfa garw rhwng y brwyn wna'r ceffyle fel ag erioed.



Gwelwyd delwau trawiadol yn britho'r ardal yn ystod cyfnod y coronafeirws. Ond prin fod yr un yn fwy trawiadol na'r pen ceffyl hwn welwyd yn nrws stabl Pwll Aderyn, Llandeilo. Ar yr olwg gyntaf mae'n edrych yn hynod o fyw gyda'r gweiryn yn ei geg a'r ffrwyn am ei ben. Go dda. A braf oedd gweld cymaint o'r trigolion ar bennau



*Bois y tractore yn mynd trwy'r pentre*

eu drysau'n cymeradwyo'r Gwasanaeth Iechyd ar nosweithiau Iau. Cafwyd gorymdaith dractorau ar un nos Iau.
Dymunwn yn dda i Les Rowlands, Morfa, sydd wedi derbyn triniaeth ysbyty ar ôl torri ei goes. Yr un modd dymunir yn dda i Thelma Griffiths, Maes-y-bryn sydd adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty. Trist gorfod cofnodi marwolaeth Mair Bevan, Awel y Mynydd. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent y pentref gyda'i chymar, Eric Howells, mewn gwasanaeth preifat. Cydymdeimlir â'r teulu agos. Da gweld y Parch Ken Thomas yn traddodi pregethau ar ei dudalen ffesbwc yn gyson ar y Sul yn ystod y cyfnod cloi.
Braf gweld Angie John, Bro Cerwyn, adref ar ôl derbyn triniaeth ysbyty. Llongyfarchiade i'w hwyres drws nesaf, Menna John, yng Nghaerwen, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18. Braf gweld bod yr awydd i beintio wedi cydio yn Alun Ifans, unwaith eto. Mae peth o'i waith ar werth yn Awen Teifi.

## Mynachlog-ddu



Cydymdeimlir â Hefin Parry Roberts a'r teulu ar golli brawd, Hedd, a oedd yn byw yn Llanuwchllyn. Bu farw yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn 84 oed. Enw ei gartref oedd Caermeini. Gedy wraig, Ann, a thri o blant ynghyd ag wyth o wyrion.
Bugeiles swil y mini gyda'i ffon fugail a'i hoen yn barod i warchod y Preselau rhag yr haint. Mae'n dynodi ei bod yn barod i gario mlân â'i gwaith ac yn codi bys bawd gobeithiol ar bwy bynnag a'i gwêl ger carreg goffa W. R. Evans wrth fynedfa feidir Glynsaithmaen. Ewch heibio i'w gweld – os yn byw o fewn pum milltir.

## Rhydwilym



Mae'r haid o lamaod sy wedi cartrefu yng Nglanrhyd Wilym ers yn agos i bum mlynedd wedi cael cryn sylw ar draws y byd yn ddiweddar, ym mhapurau Llundain ac ar raglenni teledu yn yr Unol Daleithiau hyd yn oed. Fe ddefnyddiodd eu perchennog, Matt Yorke, 39 oed, yr anifeiliaid anarferol i ddosbarthu anghenion sylfaenol i rai o drigolion y cwm yn ddiweddar. Fel arfer mae Matt a'i bartner, Alex Blackford, yn gwahodd ymwelwyr i ddod ar daith gerdded ar hyd y feidrioedd gyda'r lamaod. Ac mae'r crwt bach, Macsen, hefyd yn cynorthwyo ac wrth ei fodd yn bwydo'r creaduriaid.
Ar brynhawn Sul 24ain o Fai cynhaliwyd gwasanaeth angladdol y chwaer Rosina Davies ar y fynwent yn Rhydwilym. Yr oedd y gwasanaeth byr yng nghwmni ei meibion Huw a'i wraig, Geraint, a nifer fach o ffrindiau yng ngofal y Parch Huw George. Talwyd teyrnged bwrpasol iddi ar lan y bedd.
Gwraig o ardal Llanymddyfri oedd Rosina. Priododd â Herbert Evans, ac ymgartrefodd y ddau yn Beag Cottages, Llandysilio, ac yno gwnaeth Huw a Geraint dyfu i fyny. Yn ddiweddarach symudodd Herbert a Rosina i Fro Waldo, Llandysilio. Ar ôl claddu Herbert symudodd Rosina i Gartref Castle View, Llawhaden, ac yno y bu yn cael gofal hyd y diwedd. Cydymdeimlwn gyda Huw, Geraint a'r teulu i gyd.
Estynnwn ein cydymdeimlad i Suzanne Williams, Cefnmwynant, a'r teulu i gyd. Bu mam Suzanne farw yn gynnar ym mis Mai. Ar Fehefin 11eg bu farw Ken Llewelyn yn ysbyty Llwynhelyg. Roedd yn frawd yng nghyfraith i Meurig Davies. Ein cydymdeimlad i Meurig a Mon a phawb o'r teulu.
Diolch i Ieuan Davies, Alltypistyll, am gadw llygad ar bethe oddeutu'r lle yn Rhydwilym yn ystod yr amser diflas hwn.
Wrth gymhennu'r fynwent daeth Meurig Davies ar draws carreg fedd a oedd o'r golwg yn y ddaear y tu ôl i'r capel ar y dde. Mae'n dipyn o ddirgelwch. O gofio bod cerrig beddau yn arfer bod o flaen y capel, sy'n faes parcio nawr, mae'n bosib ei bod wedi'i symud oddi yno. Yr hyn sydd ar y garreg hyd y gellir gweld yw:
Here lies body of John Griffith from Hendre in this parish who departed

this life ?day of April 176? Also the body of John Griffith of Hendre in this parish who departed this life the 1st day ? ember1779, Aged 92 years.

Mae'n dipyn o ddirgelwch. Ble oedd Hendre? Oes rhywun yn gallu taflu



goleuni ar y mater? Mae'n dyddio nôl i ddyddiau cynnar yr eglwys. Yn 1700 y codwyd y capel cyntaf a'i helaethu yn 1763.

## Cofnodion Teuluol

**Dilys Griffiths**

Er côf annwyl am briod, Mam, Mam-gu, Hen Fam-gu a chwaer arbennig sef Dilys Myfanwy Griffiths, Hafod Unos, Hermon a hunodd Mehefin 6ed 2018.

Byth mewn côf. Gareth a'r teulu i gyd.

**Rhiannon Edwards, Bryn Mair, Maenclochog**

Ar fy mhenblwydd yn 80 oed ym mis Medi hoffwn gefnogi Ty Hafan, hosbis i blant. Felly dwi ddim yn dymuno derbyn unrhyw gardiau nac anrhegion ond os hoffech gefnogi, croeso i chi ddanfon cyfraniad ataf i, diolch.

**Undeg Lewis**

Hoffai Tudur, Rhodri, Gwyndaf a Nia Lewis, Bro Beca, Efail-wen ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad maent wedi ac yn dal i dderbyn ar ôl eu colled drist.

**Gill Thomas**

Penblwydd hapus i Gill Thomas, 21, Maes Meigan, yn 60 oed ar Orffennaf 13eg. Oddi wrth Melanie, Clive, Llinos, Dylan a'r wyrion bach i gyd.

**Sioned James**

I gofio'n dyner am Sioned, Llys Iago, Tegryn Ar ei phenblwydd yn 30 oed ar yr 2il o Orffennaf. Wrth: Hef, Dad a Mam,Steff, Serena ac Erin a'r teulu oll. "Edau cariad ni thorrir byth"

# John Ladd a therfysg Tydrath, 1801 – y maer yn herio Boweniaid Llwyngwair



*Y stordy grawn yn y Parrog*

Ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif bu llawer o anniddigrwydd yng nghefn gwlad Cymru a hynny am nifer fawr o resymau. Rhwng 1793 a 1801 gwelwyd cynnydd sylweddol ym mhrisiau anghenion bob dydd. Roedd bywyd didostur gwerinwyr cefn gwlad yn mynd o ddrwg i waeth gyda phrisiau grawn, ceirch a barlys yn codi rhwng un tymor a'r llall. Yn 1800 - 1801 bu cyfres o gynaeafau gwael ac erbyn 1801 roedd pris gwenith a barlys wedi dyblu.

Yn Ionawr 1801 roedd trigolion tlawd Trefdraeth a'r cyffiniau wedi cyrraedd pen eu tennyn. Roedd digon o wenith a barlys yn y stordai ar y Parrog ond roedd amryw o'r tirfeddianwyr lleol, gan gynnwys Boweniaid Llwyngwair wedi trefnu gwerthu cyfran sylweddol o'r cnwd i drefi diwydiannol y de ddwyrain ble roedd yna alw cynyddol am fara ymhlith gweithlu'r pyllau glo a gweithfeydd haearn. Cynigiai hyn gyfle i'r tirfeddianwyr wneud elw sylweddol, a hynny ar draul eu tenantiaid tlawd.

O dan arweiniad maer y dref, John Ladd trefnwyd cyfarfod torfol mewn ymgais i berswadio awdurdodau'r dref i ostwng pris y gwenith. Ymgasglodd oddeutu 100 o bobl gerllaw'r farchnad i erfyn am gymorth ond cuddio wnaeth cynrychiolwyr yr awdurdodau oedd â chyfrifoldeb am bennu pris y grawn. Cynddeiriogwyd y dorf ac o dan arweiniad John Ladd, gorymdeithiodd y dorf i Blas Llwyngwair, cartref teulu'r Boweniaid.

Roedd yna ddau Ynad Heddwch yn byw yno ond pan gyrhaeddodd y dyrfa'r plas nid oedd golwg o'r ynadon a bu rhaid dychwelyd i'r dref yn waglaw. Cyfarwyddodd John Ladd y dyrfa i ail ymgynnull ger y farchnad ar y diwrnod canlynol gan eu hannog i ddod ag arian er mwyn prynu ceirch a barlys o'r stordai ar y Parrog. Nid dwyn y grawn oedd bwriad y dyrfa ond ei brynu am bris teg er mwyn lleddfu rhywfaint ar eu dioddefaint.

Ond, yn dilyn yr ymweliad â Phlas Llwyngwair roedd yr awdurdodau a'u bryd ar gloffi John Ladd a'i ddilynwyr. Fe'i harestiwyd a'i gludo i garchar Hwlffordd. Gwrthodwyd cais ei gefnogwyr i'w ryddhau ar fechnïaeth. Mewn oes pan oedd y gosb eithaf yn cael ei ddefnyddio i dawelu'r dyfroedd yn erbyn y rhai oedd yn barod i herio'r drefn nid rhyfedd i gefnogwyr John Ladd gilio nôl i'w tyddynnod tlawd.

Roedd rhaff crocbren Cnwc y Grogwydd ar gyrion y dref yn arwydd cyson o barodrwydd y tirfeddianwyr i ddileu unrhyw her i'w hawdurdod. Ond nid hyn bu'r hanes yn rhannau eraill o orllewin Cymru. Yng Nghaerfyrddin bu rhaid galw am gymorth milwyr barics Aberhonddu i fynd i'r afael â'r terfysgwyr. Danfonwyd llythyron anhysbys i ynadon a thirfeddianwyr

lleol yn eu rhybuddio y byddai eu heiddo yn cael ei ddinistrio ac mewn adroddiad o Hwlffordd yng ngwanwyn 1801 datganwyd bod 'the people are upon the rising in mass'. Yng nghanol rhyfel gyda Ffrainc roedd rhai Cymry yn dymuno gweld glaniad y Ffrancod yn dilyn hanes ei chwyldro llwyddiannus a arweiniodd at ddienyddio'r Brenin Louis a dymchwel y drefn aristocrataidd yn y wlad honno.

Rhyddhawyd John Ladd wedi cyfnod byr yn y carchar a dychwelodd i'r dref gan barhau yn ei swydd fel maer. Mae adroddiadau'r achos gan gynnwys y llythyr ysgrifennodd i sgweier Llwyngwair wedi goroesi. Mae'r llythyr wedi ei ysgrifennu yn y Gymraeg ac yn dangos fod John yn ddyn dysgedig oedd yn barod i beryglu ei fywyd i unioni cam drigolion y dref oedd wedi ei ddewis yn faer.

Dyma rannau o'r dystiolaeth wedi ei drawsysgrifio o'r ddogfen wreiddiol:

John Ladd Mayor of Newport was committed the fourth day of January, 1801 by G Bowen Esq. for proposing and promoting and encouraging a tumultious and unlawful assembly and a riot on Market day at Newport.

Cofnodwyd geiriau John Fenton, llygad dyst i'r brotest ac un o drigolion y dref gan glerc y llys:

'he saw a great number of people collected near the market above a hundred in number, many of whom defied him to join them and to go over with them to Llwyngwair, which he did, having John Ladd the mayor of Newport their leader with a written paper stateing their poverty and the high price of barley and oats and defering the Justices to lower the prices otherwise threatening to take their own way of doing it'.

Ond yr hyn sydd o'r gwerth mwyaf i'r hanesydd yw'r llythyr ysgrifennodd John Ladd i George Bowen, Llwyngwair cyn iddo arwain y dyrfa draw i ddrws y plas. Fe'i hysgrifennwyd yn Gymraeg a dengys fod John Ladd yn arweinydd naturiol a llythrennog oedd yn barod i osod ei gwyn o flaen yr awdurdodau a hynny yn nhafodiaith gyhyrog ei filltir sgwâr:

Annwyl gweddus a pharchedic iestusiaid yr heddwch... hysbysy y chwy bethey nowiddyon ond y dangos y chwy eyn tylody ân anally i gael ein hymborth angenrheidol, chwi a widdoch mewn mesur helaeth pa mor anhawdd yw y Dylodyon y gimdogaeth hon y fiw dan yr amgilchadey bresennol... ar mwya ey enyll ond pring in swllt y dydd, chael bob dydd fyned allan at eyn gorchwylyon ond pa faint y dyddyey sydd mewn flwyddyn nid allwn ny enyll digon.

Yr ydym gwedy ysdyried may doethineb yn in y lle bleynaf yn abelyo atoch chwy fel... ag y dangos y chwy rhiw ychydig on meddylyei yr ydim amser gwedy goddey gormod o newin eysos y wnythyr trostom ein hunein. Pa faint mwy dros eyn telyoedd yr ydym ni ân telyodd mewn llawer o angen am fwyd oherwydd. Paham may y barlis yn bresennol yn mind y... chwart Aberteify a'r ceirch in mind y £1 10s y teal a'r halen yn mynd 3 pownd.

Y pethay hyn sydd angenrheydol y ny ey cal. Barned pawb allwn ny pwrcasy eyn hymborth wrth eyn henyll a hynny yn llay na chwecheynog Bob dydd trwy y flwyddyn

Yr ydym oll yn chwenich lonyddwch ond may gryddfaney eyn plant am fwyd yn eyn gyry ni in y lle cyntaf atoch fel Bleynoryed yr ydym yn gweld nad allwn daly am y barlysh Dym mwy na 10 swllt y rastas na Dim mwy na in swllt am y cyrch yr ydym yn Dymyno arnoch os iwn bosyble ble... y farchnad ac onyte may in Rhaid y ny y droy eyn ford eyn heynayn, a Dyn... hyn at eych ystyryeyth, yr arglwydd a gadwo Eyn Brenyn. – John Ladd.

*Hedd Ladd Lewis*




## Llythyrau

DIM RAS Y FRENNI ELENI

Annwyl ddarllenwyr,

Yn anffodus, mae Ras y Frenni wedi ei gohirio eleni oherwydd argyfwng Covid-19. Gobeithio y byddwn yn medru ei chynnal y flwyddyn nesaf. Gan fod ychydig o arian yn cael ei gadw pob blwyddyn ar gyfer diwrnodau glawiog fel hyn, fe hoffem ddosbarthu'r canlynol tuag at achosion lleol: Ambiwlans Awyr Cymru - £ 150; Ymatebydd Cyntaf Crymych - £ 150; Adran Crymych £ 100

Diolch,
Graham Williams

Annwyl Ddarllenwyr,

Bydd y Mudiad Meithrin yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 flwyddyn nesaf (2021). Felly heb os, rydym yn cynllunio ar gyfer nifer o ddigwyddiadau gwahanol i ddathlu'r achlysur.

Ein bwriad yw casglu lluniau diddorol, hanesion a digwyddiadau sydd yn gysylltiedig gyda'r Mudiad a phrofiadau unigolion dros y blynyddoedd hyd at heddiw, er mwyn ychwanegu at yr amryw o ddathliadau fydd y Mudiad yn ei gynnal.

Os oes gan unrhyw un ohonoch chi lun, hanes neu brofiad i rannu a fyddech cystal â chysylltu gyda ni trwy e-bostio marchnata@meithrin.cymru gan nodi'r flwyddyn, enwau'r bobl yn y llun ac ychydig o wybodaeth i gyd-fynd os gwelwch yn dda.

Rydym hefyd yn awyddus i glywed gan unrhyw un o'r darllenwyr sydd wedi mynychu un o'r Cylchoedd Meithrin cyntaf – y rhai oedd mewn bodolaeth cyn 1971.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich atgofion a phrofiadau.

Diolch yn fawr
Cofion
Helen Mai
Swyddog Cydgordio Dathliadau
50 Y Mudiad Meithrin

# YSGOLION Y FRO

## Ysgol y Preseli

### Eisteddfod T



Llongyfarchiadau i Ella Hargreaves o flwyddyn 8 am berfformio'n wych yn y Sialens Mathemateg Y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol a drefnwyd gan Brifysgol Bangor fel rhan o Eisteddfod T.



Llongyfarchiadau hefyd i Ffion Thomas ar ennill y drydedd wobr yng nghystadleuaeth Lleisiol Bl 10-dan 19 yn Eisteddfod T eleni.

### Colli Gaynor

Tristwch o'r mwyaf oedd clywed am farwolaeth y gyn-athrawes Mrs Gaynor Jenkins, Eglwyswrw yn ddiweddar. Cofir am Mrs Jenkins fel athrawes frwdfrydig a Phennaeth Adran Ieithoedd Tramor Modern yr ysgol am flynyddoedd lawer. Yn ogystal, bu'n Bennaeth Blwyddyn 11 am nifer helaeth o flynyddoedd. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu a'r cysylltiadau i gyd.

### Llwyddiant Digidol



Llongyfarchiadau i Mathew Jenkins o Fl 13 sydd wedi cael ei enwebu ar gyfer Gwobr BAFTA Young Game Designer am yr ail flwyddyn yn olynol – camp aruthrol o gofio bod cannoedd yn cystadlu ar draws y DU. Pob lwc i ti i'r dyfodol

### Croeso

Croeso cynnes i Breseli i Mrs Eleri Barder sef Swyddog Presenoldeb newydd yr ysgol. Gobeithio gwnewch chi setlo gyda ni yn fuan iawn.

### Llongyfarchiadau

Pob dymuniad da i Mr a Mrs Wayne Mason ar enedigaeth merch fach, Alaw Fflur, nol ym mis Ebrill, chwaer i Osian. Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Rosie Stephens a'i gŵr Drew ar enedigaeth eu hail blentyn sef Cadi, chwaer fach i Gwena.

### Swyddi Newydd

Dymuniadau gorau i Mr Duncan Richmond ar gael ei benodi yn Bennaeth yr Adran Wyddoniaeth; Mrs Sharlaine Quick Lawrence yn Gydlynydd y Celfyddydau Mynegiannol; Miss Nia Williams yn Gydlynydd y Dyniaethau; Mr Robin Davies yn Gydlynydd Gwyddoniaeth a Thechnoleg; Mrs Serena Davies yn Gydlynydd Iechyd a Lles; Miss Naomi Nicholas yn Gydlynydd Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a hefyd yn Gydlynydd Llythrennedd yr ysgol; Miss Rhian Eleri Davies yn Gydlynydd Mathemateg a Rhifedd, Mrs Catrin Jones yn Gydlynydd Bagloriaeth Cymru. Hefyd, llongyfarchiadau i Mr Gethin Vobe ar gael ei benodi'n Bennaeth Cynnydd a Lles Blwyddyn 9 ac i Mrs Catrin Rees a Mrs Ffion Richards ar gael eu penodi'n Gydlynwyr Abl a Thalentog yr ysgol. Estynnwn ein dymuniadau gorau i bawb yn eu swyddi newydd.

### Ffarwelio

Ddiwedd Tymor yr Haf, ffarweliwn â sawl aelod o staff. Diolch i Miss Cerys Hunt am ei gwaith fel cynorthwyydd darllen yn yr Adran ADY. Dymuniadau gorau i Mrs Rosie Stephens, Pennaeth Sbaeneg yn ei swydd newydd yn Ysgol Caer Elen.

Pob dymuniad da hefyd i Mrs Lowri Gregson, Adran Ddaearyddiaeth a Phennaeth Cynnydd a Lles Blwyddyn 9 ar ei hapwyntiad fel Pennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Gyfun Aberaeron.

Dymunir ymddeoliad hapus i Mr Llifon Hughes, Adran Mathemateg yn dilyn 18 o flynyddoedd o wasanaeth yn yr ysgol. Yn yr un modd pob dymuniad da i Dr Meic Morgan, Pennaeth yr Adran Wyddoniaeth sy'n ymddeol ar ôl 13 o flynyddoedd yn Ysgol y Preseli.

Diolchwn i'r aelodau hyn o staff am eu hymroddiad a'u gwaith caled yn eu gwahanol feysydd ac am y cyfleoedd


**Gwesty Nant-y-Ffin**

**LLANDYSILIO**

Gwely a Brecwast

Ciniawau a Phrydau ar gyfer pob achlysur

Cysylltwch â

**(01437) 563423**

allgyrsiol a ddarparwyd ganddynt i ddisgyblion Ysgol y Preseli. Pob lwc a dymuniadau da i chi gyd.

**Ffarwelio ag Athrawes Bontio'r ysgol**

Dymunir ymddeoliad hapus i Mrs Gill Davies, Athrawes Bontio'r ysgol a wnaeth ymddeol o'i swydd ddiwedd Tymor y Pasg. Dymunwn ddiolch iddi am bob cefnogaeth dros yr holl flynyddoedd wrth gefnogi disgyblion y dalgylch i drosglwyddo atom i'r Preseli. Ymddeoliad hapus i chi.

# Ysgol Eglwyswrw

**Myfyrdodau am y cyfnod clo**

Ar ddiwedd mis Mawrth 2020 roeddem yn dechrau paratoi ar gyfer gadael Ysgol Eglwyswrw a symud ymlaen i barhau a fy addysg yn Ysgol y Preseli. Roedd cynllunie' ar y gweill ar gyfer nifer o ddigwyddiadau a heriau i gwblhau ein blwyddyn olaf a threfniadau yn dechrau cael ei gwneud ar gyfer pontio gyda'r Preseli.

Yn anffodus daeth Covid 19 a dechreuodd y cyfnod clo. Yn sydyn iawn roedd yr ysgol ar gau a dim modd ymweld â theulu na ffrindiau. Roeddwn yn drist iawn ac yn gweld eisiau pawb yn ofnadwy, ond penderfynais fod yn bositif a mynd ati i gadw'n brysur.

Yn ystod y cyfnod rhyfedd yma rwyf wedi bod yn helpu ar y ffarm gyda'r lloi bach, bwydo, carthu a checo'r 'da gyda dad. Rwyf wedi dod yn lawer fwy hyderus o gwmpas yr anifeiliaid ac yn mwynhau eu gweld yn tyfu. Rwyf hefyd, wedi mwynhau dysgu sgiliau beic pedair olwyn ac yn mynd bob dydd o gwmpas y stoc i wneud yn siŵr fod popeth yn iawn.

Rhywbeth arall rwyf wedi bod yn gwneud yw coginio. Rwyf wedi gwneud pethau melys fel 'butterfly cakes' a 'brownies' ac wedi bod yn edrych am ryseitiau newydd ar gyfer prydau i'r teulu. Rwyf wedi gwneud pasta, a choginio ryseitiau cyw iâr gyda saws hufen. Roedd digon o gacennau blasus gyda ni felly penderfynom rannu'r cacennau gyda rhai o'r cymdogion sydd wedi bod yn hunan ynysu yn ystod y cyfnod clo.

Er gwaetha' popeth rydym wedi bod yn lwcus iawn o gael gwaith bob wythnos oddi wrth ein hathrawes Miss James gan ddefnyddio Teams. Does dim dwywaith bod ein sgiliau technoleg wedi datblygu ac yn ogystal â thasgau heriol a hwyl yn ymwneud â gwaith, mae Miss James hefyd wedi cynnal cyfarfodydd ar teams ble ni wedi cael cymdeithasu fel criw a gwneud pethau hwyliog fel cwis, bingo a helfa drysor.

Felly ar ôl 13 wythnos o dan glo mae wedi bod yn galed ar adegau ond rwy'n cyfri'n hunan yn lwcus o fyw yn y wlad gyda digon o le i fynd allan a cherdded. Y peth gorau heb os am y cyfnod yw cael amser i helpu dad a dysgu am ffermio. Y peth gwaethaf oedd bod datcu wedi marw yng nghanol y cyfan a gweld pa mor anodd oedd hi i bobl ddod i weld mam-gu. Rwy'n sicr wedi gweld ishe athrawon a ffrindiau Ysgol Eglwyswrw ac yn edrych ymlaen yn fawr at ei gweld mewn rhyw ffordd pan af yn ôl i'r ysgol a pharatoi ar gyfer yr her fawr nesaf yn Ysgol y Preseli ym mis Medi. - gan Megan George

---

Mae'r cyfnod clo wedi bod yn amser rhyfedd. Cyn i'r pandemig i ddechrau roeddwn yn gyffrous iawn ac yn edrych ymlaen at weithgareddau diwedd blwyddyn 6 – taith i Langrannog, diwrnodau pontio ym Mhreseli a fy mabolgampau olaf yn Ysgol Eglwyswrw. Er hyn rydw i'n hapus fy mod wedi cael cyfle i wneud llawer o bethau. Rwyf wedi bod yn coginio, mynd ar fy meic, mynd am dro, peintio, ffermio a chwarae tu allan.

Mae'n teimlo'n rhyfedd gael gwersi ar-lein a ddim mynd i'r ysgol. Rydw i'n gweld eisiau fy ffrindiau. Roedd Miss James wedi trefnu bingo, cwis a helfa drysor i'r dosbarth ar-lein. Roedd e'n llawer o hwyl ac roedd hi'n braf i weld fy ffrindiau eto.

Y peth gwaethaf oedd cael fy mhen-blwydd adeg cyfnod clo a ddim gweld Mam-gu a Datcu a fy nghefndryd. Rwy'n edrych ymlaen at gael barbeciw gyda fy nheulu pan fydd hi'n saff eto. - gan Ela

---

Yr ydym bellach wedi bod yn byw mewn byd ansicr ac anghyfarwydd i ni gyd. Yr ydym wedi gorfod dod yn gyfarwydd â byw mewn ffordd hollol newydd. Mae hyn wedi dod a sialensiau newydd i ni gyd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Mae'r gliniadur wedi dod yn ffrind agos i mi gan mai gwersi ar-lein yw ein hysgol newydd. Rwy'n colli gweld ffrindiau a chymysgu a chwarae yn rhydd gyda nhw ar yr iard ; colli profiadau o fewn yr ysgol a chael hwyl sbri. Heb weld Mam-gu a thad-cu ers wythnosau felly sgwrs ar y ffôn yw'r unig ffordd. Ein siopa yn dod i'r drws gan gofio'r rheol 2 fetr. A golchi dwylo yn rheolaidd wedi dod yn beth naturiol i ni gyd.

Ond dal i ganu mae'r adar yn glir a'r anifeiliaid yn pori'r tir, cnydau yn tyfu ar ffarmwr yn brysur. Diolchwn am hyn. Felly gobeithio yn fawr rhyw ddiwrnod, cyn hir gobeithio, fe fydd pethau yn dychwelyd yn ôl i ryw fath o normalrwydd. Efallai ddim i beth yr oedden yn gyfarwydd ond efallai ein ffordd newydd o fyw. – gan Hawys

# Ysgol y Frenni

Mae hi 'di bod yn amser hir i'r plant yn ystod y cyfnod clo a ry'n ni'n edrych ymlaen yn fawr i'w croesawu yn ôl i'r ysgol. Dyma ambell ddarn o waith mae'r disgyblion wedi eu creu wrth ddysgu adref. Daw eto haul ar fryn.

**Mae gen i freuddwyd**

Mae gen i freuddwyd
am ddeffro un bore,
a gweld pawb yn dianc o'r rhwyd
dyna beth fydde'r teimlad ore'.

Mae gen i freuddwyd
am gael mynd ryw ddiwrnod,
mewn car i chwilio am fwyd
cofia, paid prynu gormod!

Mae gen i freuddwyd
am fynd ar wylie,
i fyny i'r gogledd i Sir Clwyd
edrych 'mlan i ymweld a'r treithe.

Mae gen i freuddwyd
am gael cwrdd a theulu,
pawb yn iach, am hynny diolchwyd,
ac yna rhoi cwtsh mawr i'n gily'.

gan Mali Wyn, Blwyddyn 5

**Mae gen i freuddwyd**

Mae gen i freuddwyd,
Y daw eto haul ar fryn,
Ar ôl y storm daw enfys,
Yn obaith i'r byd hyn.

Mae gen i freuddwyd,
Er gwaetha rhaniadau'r byd,
Ei boen, ei dristwch a'i salwch,
Cawn eto gofleidio ynghŷd.

Mae gen i freuddwyd,
Daw unigedd gwahanu i ben,
Gallwn groesawi ein gwahaniaethau,
Heb ofni gwawd na sen.

Mae gen i freuddwyd,
Gallwn gymodi'r holl ddynoliaeth,
Hil Adda yr ydym bob un,
Caru cyd-ddyn yw gwir frawdoliaeth.

Mae gen i freuddwyd,
Ar ôl y gwrthdaro cas,
Y down eto gyda'n gilydd,
Heb feddwl am hil a thras.

Rwy'n pledio arnoch ffrindiau,
I beidio ynysu'ch calon;
Breddwydiaf am wella'r clefyd,
Wnaeth bobl di fai'n alltudion.
gan Gwenan Scourfield, Blwyddyn 6



*Amy o'r Derbyn wedi creu enfys lliwgar gan ddefnyddio ffrwythau.*



*Celt a'i frawd bach Rhun wedi bod yn brysur yn peintio enfys.*



*Dyma enfys lliwgar Scarlett o Flwyddyn 1.*



*Dyma enfys lliwgar o flodau gwyllt Grug o Flwyddyn 4.*



*Dyma lun Gwion o Flwyddyn 4 wrth iddo ail greu llun Orielodl.*



*Leisa o'r Derbyn wedi bod yn brysur yn ail greu llun lliwgar Orielodl.*




*Ifan ac Elisa yn diolch i'r GIG.*

## Adolygiad o ddrama 'Llyfr Glas Nebo' gan Manon Steffan Ros "A lle mae dy Dduw di rŵan?"

Yn ddiweddar cawsom ni, fel disgyblion Ysgol Bro Teifi, y fraint o fynd i weld y ddrama 'Llyfr Glas Nebo' yn Theatr Felinfach gan y cwmni drama 'Frân Wen'. Roedd hi'n brynhawn i'w chofio.

Cafodd y ddrama ei seilio ar y llyfr a ysgrifennwyd gan Manon Steffan Ros. Dyma un o'r llyfrau gorau rwyf wedi'i ddarllen felly roeddwn yn chwilfrydig iawn i weld y ddrama. Enillodd 'Llyfr Glas Nebo' y fedal rhyddiaeth yn Eisteddfod Genedlaethol 2018 ac yn 2019 enillodd Wobr Llyfr Cymru. Mae'r nofel hefyd wedi cael ei chynrychioli i'w hastudio yng Nghymru i TGAU felly mae'r nofel wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Mae cwmi'r 'Frân Wen' wedi bod yn perfformio'r ddrama 'Llyfr Glas Nebo' mewn 11 o safleodd gwahanol dros Gymru, yn cynnwys Theatr Felinfach, Canolfan Garth Olwg ym Mhontypridd y Galeri yng Nghaernarfon a llawer mwy. Cafodd y cwmni drama'r 'Frân Wen' ei sefydlu yn 1984 ac ar hyn o bryd mae wedi'i leoli ym Mhont Menai, Ynys Môn. Mae gan y cwmni 6 aelod o staff, criw ifanc a chriw hŷn.

Pan gerddais i mewn i'r neuadd berfformio, roedd yn dywyll yno â mwg dros y llwyfan, yn ogystal â cherddoriaeth i greu awyrgylch amheus. Llwyddodd y cynhyrchwyr i gyfleu naws anghyfforddus fyddai'n ein paratoi ar gyfer y ddrama.

Roedd y cynhyrchiad o 'Llyfr Glas Nebo' am deulu digon arferol ond yn y dyfodol, ar ôl ffrwydriad niwclear yng nghyffiniau Ynys Môn. Roedd Rowenna a'i dau blentyn- Siôn a Dwynwen yn byw mewn pentref o'r enw Nebo, oedd ddim yn bell o dref Caernarfon. Roedd y canlyniad gafodd y ffrwydriad niwclear ar Nebo a'r trefi o amgylch yn ddychrynllyd ond roedd Rowenna Siôn a Dwynwen yn byw bywydau arferol iawn- eu harferol nhw erbyn hynny.

Syniad Siôn oedd 'Llyfr Glas Nebo' i gadw cofnod o bethau ac i ysgrifennu beth bynnag oedd e a Rowenna eisiau e.e. storïau am y gorffennol, presennol neu'r dyfodol. Mae Rowenna yn datgelu llawer o gyfrinachau personol tra'n ysgrifennu yn y llyfr. Erbyn diwedd y cynhyrchiad, mae Dwynwen wedi marw ar ôl cael salwch oedd wedi bod yn barhaus. Ac roedd tensiwn rhwng Rowenna a Siôn.

Llwyddodd yr actorion i gyfleu yr un teimlad o hapusrwydd, unigrwydd a thristwch a gefais tra'n darllen y nofel ac roedd y sŵn pan ddigwyddodd y ffrwydriad niwclear yn union fel oeddwn wedi dychmygu tra'n darllen y nofel. Roedd y cynhyrchwyr hefyd wedi defnyddio lliwiau gwahanol o oleuadau i greu awyrgylch o deimladau gwahanol ac yn fy marn i roedd hynny'n effeithiol iawn.

Hefyd llwyddodd yr actorion greu tensiwn rhwng ei gilydd pan oedd Rowenna yn grac gyda Siôn am adrodd darn allan o'r Beibl ar ôl marwolaeth Dwynwen gan ddweud "A lle mae dy Dduw di rŵan?". Yn fy marn i dyma un o'r darnau lle roedd y mwyaf o densiwn yn y ddrama achos dyna'r tro cyntaf i Siôn gasáu ei fam, tra roedd Rowenna yn teimlo llawer iawn o emosiynau gwahanol. Yn ogystal â hyn llwyddodd yr actorion greu tensiwn pan welodd Rowenna berson am y tro cyntaf ers blynyddoedd. Roedd ei pherfformiad yn dangos hiraeth ond ar yr un pryd ofn.

Yn amlwg nid oedd y set yn gallu bod yn union yr un peth â'r llyfr oherwydd dim ond llwyfan oedd ganddynt ond teimlaf bod y cynhyrchwyr wedi llwyddo i wneud set oedd yn hyblyg er mwyn adlewyrchu'r amryw o amgylchiadau a digwyddiadau.

Credaf bod y cynhyrchiad yn llwyddiannus oherwydd gwnaethant lwyddo i greu naws yn debyg i'r hyn a deimlais wrth ddarllen y llyfr. Un peth sydd wedi fy nharo a gwneud i fi feddwl am y ddrama yn ogystal â'r nofel ydy y posibilrwydd y gall beth ddigwyddodd ynddynt droi yn realiti go iawn ac mae'n fy ofni i feddwl amdano.

Ni fedraf argymell y ddrama hon i un carfan o bobl yn unig gan y teimlaf y byddai pobl o bob oed yn ei mwynhau ac yn elwa o'r negeseuon sy'n cael eu cyfleu.

Roedd hi'n brofiad anhygoel cael mynd i weld un o fy hoff lyfrau ar ffurf drama ac mi fyddaf yn mynd eto os bydda i'n cael y cyfle. Roedd hi'n ddrama a phrofiad i'w chofio!

Mallt Ladd-Lewis

# MERCHED Y WAWR

## Cangen Ffynnongroes mewn "locdown"!



*Hwyl y cyfarfod rhithiol rhwng y swyddogion Rhanbarth*



*Gwnaeth Pam ei siar*



*Rhian Selby a'i sbwriel*



*Helfa dda gan Wendy*



*Sbwriel yn brin yng Nghwmbetws!*




*Sbwriel Gill ac Elin – sachau llawn.*



*Rhaid i Nest gael hoe*



*Buddugwyr y rhaglen orau – Bethan Picton-Davies, Rhian Bryan a Nest George*

Nid yw aelodau Merched y Wawr Cymru yn rhai i eistedd nôl a gwneud dim, hyd yn oed mewn "locdown"! Mae'r cyfnod anodd yma wedi profi bod bwrlwm yn dal i fyrlymu yn ein canghennau. Fe ddaeth cyhoeddiadau bod gweithgareddau'r mudiad yn cael eu gohirio, un ar ôl y llall!

Yn sgil y gohirio, ar ddechrau mis Mai cawsom Ŵyl Haf Rhithiol Merched Y Wawr Cymru, a diolch i'r Swyddfa Genedlaethol am yr holl drefnu a fu'n glwm wrth ddarparu a chyhoeddi enillwyr y cystadlaethau dros y cyfryngau cymdeithasol! Llwyddiant mawr i gangen Ffynnongroes wrth ennill "Rhaglen Orau 2020" dros Gymru. Bydd rhaid dathlu ar ddiwedd y locdown!

Mae is-swyddogion cangen Ffynnongroes wedi dechrau ar y gwaith o drefnu a chynllunio rhaglen 2020-21, yn barod ar gyfer cyd-gwrdd unwaith yn rhagor. Mae Pam Griffiths a Rhian Selby, yn brysur iawn yn trefnu gweithgareddau, (gan ddilyn canllawiau'r llywodraeth ar gyfer Cofid19) ac yn estyn croeso cynnes i aelodau presennol a newydd.

**Lliwiau'r enfys**

Mae'r Enfys yn symbol ac arwydd o obaith i ni gyd, ac yng nghanol yr argyfwng yma fe welwyd nifer o aelodau yn arddangos gwahanol enghreifftiau o'r Enfys yn eu cartrefi. Ar ran MyW Ffynnongroes carwn ddiolch i'n Llywydd Rhanbarth, Ann Howells a Hazel Thomas, Swyddog Datblygu'r Rhanbarth am greu cwis y mis. Llongyfarchiadau i gangen MyW Blaenffos am ddod yn fuddugol ym mis Ebrill a Mai, mae'r trydydd cwis ar waith! Diolch i bob cangen sydd wedi cyfrannu, mae 'di bod yn dipyn o hwy a chrafu pen!

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf fe welwyd holl ganghennau Cymru yn casglu sbwriel fel rhan o Brosiect ein Llywydd Cenedlaethol Meirwen Lloyd. Fe wnaeth Nest George, Llywydd Ffynnongroes annog aelodau'r gangen i fynd ati'n unigol, i dacluso eu milltir sgwâr. Casglwyd nifer o fagiau sbwriel a diolch i bob aelod am arbed bach o waith i fois y bins!

Mae'r gweplyfr (facebook) wedi dod yn rhan o fywyd dyddiol y rhan fwyaf ohonom dyddie yma! I ni'n cadw mewn cyswllt, cloncian, derbyn newyddion, cyfrannu arian tuag at achosion da, yfed wyau, siwgr a shot, gwneud y cwisiau teuluol a hefyd coginio a chrefftio yn ein cartrefi. Diolch i holl aelodau cangen Ffynnongroes (ac aelodau arall yn y rhanbarth) am gyfrannu tuag at "Curo Corona Coginio/Crefftio/Cartref".

**Tudalen gweplyfr**

Dyma dudalen gweplyfr a grëwyd gan Gwerfyl Eidda gyda chydweithrediad Merched y Wawr, ar gyfer aelodau a ffrindiau'r mudiad. Gwelwyd nifer fawr o luniau safonol yn dangos dychymyg coginio a dawn grefftus merched a bechgyn Cymru mewn locdown. Bwriad y mudiad fydd creu llyfr coginio i ni gyd gael mwynhau ac ail greu'r rysetiau bendigedig. Cais hir dymor MyW eleni yw i annog aelodau i greu "Blodau Gobaith" mewn unrhyw gyfrwng ac yn ddelfrydol mewn lliwiau'r enfys. Ydych chi'n edrych am rywbeth ecstra i wneud dros y cyfnod yma? Beth am fynd ati i greu #BlodauGobaith <https://www.facebook.com/hashtag/blodaugobaith?__ fel rhan o brosiect "Gartref Gyda'n Gilydd".

Anfonwch luniau o'r creadigaethau ymlaen at MyW Cymru ac fe fydd arddangosfa o Enfys anferth o flodau gobaith i weld ar stondin MyW, Eisteddfod Tregaron 2021.

Ma' cysylltu gyda'n gilydd dros y we wedi gwneud cyfarfod rhithiol swyddogion y Rhanbarth cyntaf erioed yn bosib. Fe welwyd Bethan Picton-Davies, yr is-Lywydd, ac Awen Evans, is-Ysgrifennydd o gangen Ffynnongroes, yn ymuno gydag Ann Howells, Llywydd; Buddug Ward, Ysgrifennydd a Hazel Thomas, Swyddog Datblygu'r Rhanbarth, mewn cyfarfod fideo ar weplyfr.

**Gofyn 'Shwt ma' nhw?'**

Mae'r cyfnod yma yn anodd i nifer sydd wedi bod yn ynysu, a heb gwmni yn eu cartrefi. Fe wnaeth ein His-lywydd Cenedlaethol, Jill Lewis, annog aelodau ar draws y Rhanbarth


**Ivor Rees a'i Feibion**

CONTRACTWR TRYDANOL

Hefyd :

Gwerthiant a Gwasanaeth o Offerynnau Trydanol
Goleuadau Diogelwch a Larwm Lleidr

**Y Felin, Maenclochog, Clunderwen**
**Sir Benfro. SA66 7JY**

**Ffôn : 01437 532326**
**Symudol : 0831 621559**

i godi'r ffôn a ffonio cymydog, aelod o'r teulu neu rywun o'r gymuned sydd ar ben eu hunain a heb unrhyw gyswllt i'r we, a gofyn 'Shwt ma nhw?', ac i gael sgwrs.

Dyna chi gipolwg ar fyd a bywyd aelodau cangen MyW Ffynnongroes a Rhanbarth Penfro yn ystod y cyfnod digon ansicr yma. Ma' rhaid cadw'n bositif, saff ac iach a… fe "ddaw eto haul ar fryn"!

## Capel Newydd

Mae'n amlwg, oherwydd cyfyngiadau'r feirws corona, nid yw'r gangen wedi cyfarfod ers mis Mawrth, pan ddathlwyd diwrnod ein nawddsant, yng Nghaffi Beca. Ond mae'r aelodau wedi cadw mewn cysylltiad ar y ffôn, y wě neu'r cyfryngau cymdeithasol. Cafwyd sawl cwis hefyd, yn procio'r meddwl a'r côf – diolch i'r trefnwyr am ein cadw'n effro yn ystod y cyfnod clo. Edrychwn ymlaen yn eiddgar pan bydd hi'n ddiogel i gynnal cyfarfod 'to, i weld ein gilydd, a chael dal fyny â hanes pawb, mewn clonc go iawn, ac erbyn hynny, byddwn ni ferched wedi ymweld ă'r salon gwallt a phob un ohonon ni'n edrych yn dwt a thrwsiadus!

## Tegryn

Oherwydd y Covid 19 nid oes yr un cyfarfod wedi cymryd lle a chafodd ein cyfarfod blynyddol, taith a chinio'r Llywydd eu gohirio. Rydym yn mawr obeithio y cawn gwrdd eto yn yr Hydref. Mae Swyddogion Rhanbarth wedi cynnal pwyllgor ar y we.



Trist oedd colli un o aelodau gweithgar a ffyddlon y gangen sef Olwen Bowen (gweler y llun). Ymunodd â'r gangen yn 1989 a bu yn Llywydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd yn ei thro. Olwen hefyd oedd Gohebydd y Wasg am nifer o flynyddoedd.

Aelod a oedd yn grefftwraig o fri ac yn hollol ddibynadwy beth bynnag oedd y gofyn. Fe welwn ei heisiau yn fawr. Cydymdeimlwn yn ddwys â Len, ei gŵr a'r teulu oll.

Pen-blwydd Hapus a dymuniadau gorau i'n Llywydd, Brenda Lewis, ar ddathlu pen-blwydd arbennig ym mis Gorffennaf. Iechyd da Brenda.

# Tarian Cymru yn Eglwyswrw



*Bethan yn paratoi i ddosbarthu bocsed arall*

Er bod Tarian Cymru yn codi arian er mwyn dosbarthu offer gwarchodol (PPE) i weithwyr iechyd mae Eglwyswrw wedi bod yn rhan bwysig o'r ymgyrch.

Wedi i feddyg teulu lleol fynd yn sâl â Covid-19 daeth hi'n amlwg i griw bach bod angen PPE ar staff meddygol - yn lleol a chenedlaethol.

Aed ati felly i godi arian, siarad gyda'r gweithwyr iechyd eu hunain am beth yn union oedd ei angen, a dechrau dod i drefniant gyda'r rhai oedd yn creu PPE. Roedd angen lle gweddol o faint i bopeth ddod, a rhywun i roi trefn arno i'w ddosbarthu.

Bryd hynny des i'n rhan o bethau. Mae gyda ni sied fawr ac mae'n gyfleus i ollwng a chasglu pethau yma. Felly i Eglwyswrw mae popeth yn dod. Ond dyw e ddim yma am yn hir. Mae archebion yn cael eu paratoi o fewn diwrnod i'w casglu'n syth a'u dosbarthu.

Mae'n anodd credu i grŵp gwirfoddol bach fel ni ddosbarthu dros 100,000 o eitemau PPE erbyn hyn. Ond yn anffodus mae angen o hyd. Er bod Byrddau Iechyd yn dweud fod digon o gyfarpar gyda nhw mae gweithwyr yn dal i ofyn amdano. Ond gallwn ni ond prynu offer os oes arian gyda ni, ac ry'n ni'n llwyr ddibynnol ar roddion.

Mae llawer o'r deunyddiau yn cael eu mewnforio o Tseina yn ogystal â chael eu cynhyrchu yn y Barri ac Abertawe ac yng Nghrymych wrth gwrs. Mae'n nhw'n cael eu dosbarthu i bob rhan o Gymru wedyn gan rwydwaith o yrrwyr. Mae'r galw yn gyson wrth gwrs am nad yw'n bosib i'r gweithwyr iechyd ddefnyddio'r cyfarpar fwy nag unwaith.

Gall unrhyw un gyfrannu trwy dudalen we Tarian Cymru - gofundme.com/f/tariancymru neu ddanfon siec yn daladwy i Alice Jeffs (trysorydd Tarian Cymru) gyda rhif ein cyfrif ar y cefn - 71341195 - at Freepost Monzo. Eisoes mae dros £70,000 wedi'i godi a'r nod yw cyrraedd £100,000.

*Bethan Williams*

# COLOFN Y DYSGWYR dan ofal Susan Carey

## Dal i ddysgu – ar y rhyngrwyd

Beth sy'n diddanu chi ar hyn o bryd? A ydych chi'n pobi neu arddio ffwl pelt? Mae llawer o bobl wedi penderfynu dysgu'r Gymraeg. Ers y clo mawr mae rhaglenni dysgu ar y we fel Duolingo a Say Something in Welsh wedi gweld cynnydd sylweddol o bobl yn dysgu iaith y nefoedd. Hefyd mae 8,300 o ddysgwyr newydd yn dilyn cyrsiau digidol newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol. Meddai Helen Prosser Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan,

"*Ni wrth ein bodd a'n methu credu'r peth. Cant oedd y targed! Roedd hi'n her enfawr i ddod o hyd i'r tiwtoriaid. Roedd angen digon o diwtoriaid i gynnal 89 o ddosbarthiadau rhithiol (virtual), gyda dros 1,300 o'r dysgwyr yn ddechreuwyr llwyr*".*(Cymru Fyw 2/6/2020)

Mae pobl fel arfer sy'n dysgu mewn dosbarth yn eu canolfan lleol nhw wedi troi i ddysgu o bell hefyd. Mae Dysgu Cymraeg Sir Benfro yn defnyddio Zoom er mwyn cynnal gwersi ar y we. Mae mantais gyda Zoom bod llawer o bobl yn gallu ei ddefnyddio. Does dim ots beth sy gyda nhw cyfrifiadur, gliniadur, i-pad neu dabled. Maen nhw'n gallu llawrlwythio'r rhaglen am ddim.


### Bob bore dydd Iau

Mae gwersi Roger, fy ngŵr, yn digwydd bob bore dydd Iau am ddeg i ddeuddeg. Mae eisiau defnyddio cyfrinair i gael mynediad i'r dosbarth ac wedyn pawb yn y dosbarth yn gallu gweld a chlywed ei gilydd. Mae'r myfyrwyr yn dal i gymryd rhan mewn gwaith grŵp yn ogystal â chael eu haddysgu gan eu hathro.

Mae modd gwahanu'r myfyrwyr mewn grwpiau bach am sbel yn ystod y wers. Anfonir a dychwelir gwaith cartref trwy e-bost. Gofynnais i Gaynor Watts Lewis, tiwtor gyda Dysgu Cymraeg Sir Benfro, beth oedd hi'n meddwl am y drefn newydd?

### Barn Gaynor

"*Fel tiwtor dw i'n gweld eisiau cwrdd ag aelodau'r dosbarth wyneb yn wyneb achos dw i'n gallu gweld os ydy pawb yn deall. Mae'r gwersi yn eisteddog iawn achos 'sŵn i'n sefyll o flaen y gliniadur fyddwn i ddim yn gallu gweld aelodau'r dosbarth a fydden nhw ddim yn fy ngallu ngweld i'n glir chwaith.*



Roger Carey yn barod am ei wers ar-lein

*Er hyn, diolch byth am y dechnoleg fodern, mae wedi galluogi'r gwersi i redeg mewn rhyw fodd a dw i wrth fy modd medru gweld pawb unwaith yr wythnos ac wrth gwrs mae tasgau ymarfer yn cael eu cwblhau ar lein a'u hala nôl ac ymlaen rhwng y tiwtor ag aelodau'r dosbarth*" meddai.

Ges i gyfle hefyd i holi aelodau dosbarth Gaynor os odyn nhw'n hapus gyda dysgu ar-lein. Mae pawb yn hapus i beidio gyrru i'r dosbarth, maen nhw'n arbed amser ac arian. Mae rhai'n aros yn y gwely yn hwyrach ac yn gwisgo "slippers" i'r dosbarth. Dydy pawb ddim yn hoff iawn o weld eu hunain ar y sgrin.

### Problemau technegol

Mae problemau technolegol hefyd. Dod i arfer defnyddio'r ap, a phroblemau gyda rhyngrwyd. Roedd un myfyriwr yn gorfod talu llawer o arian am ddata ac o ganlyniad allem ni ddim ond ei glywed a pheidio â'i weld. Mae hi'n rhy ddrud iddo fe i hala lluniau ond yr unig un sy'n gallu gwisgo ei byjamas i'r dosbarth.

Mae pawb yn gweld eisiau cwrdd wyneb i wyneb â eu ffrindiau nhw a chael clonc fach dros paned o goffi. Beth am y dyfodol? Mantais arall i ddysgu o bell yw'r gallu i ddysgu yn unrhyw le. Ar ôl y cyfnod clo bydd pobl yn gallu mynd ar eu gwyliau nhw a pheidio colli gwers.

Roedd un myfyriwr yn awgrymu bod nhw'n cael gwersi cymysg, hynny yw ambell wers yn y dosbarth ac ambell wers ar lein. Syniad da. Diolch yn fawr iawn i Richard, Judith, Sara, Clare, Malcolm, Helen, Trevor, Liz, Roger ac wrth gwrs eu tiwtor nhw, Gaynor, am eu hamser nhw yn ateb fy nghwestiynau.

Tan y tro nesa, cadwch yn saff! – Susan




EUROS THOMAS
Pencnwc Mawr, Eglwyswrw
Sir Benfro
Mob.: 07855 448093



**Gofalus**

Mae Malcolm a Suzanne, Bwyd y Byd, nawr yn rhedeg cwmni gofal sydd yn cynnig:

- Cymorth yn eich cartref, e.e. gydag ymolchi, meddyginiaeth, symud o gwympas a chymorth i gynnal eich hunan barch.
- Cymorth i fod yn rhan o'ch cymuned.
- Cwmni
- Rhywun i aros gyda chi pan fod eich gofalwr arferol yn cael amser bant.
- Staff sydd wedi eu hyfforddi.
- Staff Cymraeg ar gael.
- Amserau i'ch siwtio chi.
- Holwch ni ynglyn am ffyrdd o dalu e.e. pa gymorth sydd ar gael i chi neu hunan daliadau.
- Wedi cofrestru gyda AGGCC.
- Diwrnodau allan a chymorth i fynd i apwyntiadau.

Am fwy o fanylion cysylltwch a Malcolm ar: 01239 832852 / 07817 634810
E-bost – Gofalus@hotmail.com Gwefan – www.gofalus.com

# UGAIN MLYNEDD

Wrth groesawu milflwyddiant newydd yn 2000 cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau misol ym mhentref Maenclochog gan arwain at benllanw o sioe awyr agored ar gilcyn glas y pentref dros dair noson ym mis Gorffennaf.

Gwahoddwyd y Prif Weinidog, Rhodri Morgan, i agor Arddangosfa ar sail y ffaith bod hen-wncwl iddo wedi bod yn weinidog yn Horeb. Cynhaliwyd seremoni Maenclochog a'r Byd pan groesawyd alltudion adref. Gwelwyd y gymuned gyfan yn tynnu at ei gilydd i ddathlu o dan arweiniad Pwyllgor Milflwyddiant Maenclochog a'r Cylch.

Sgriptiwyd y sioe 'Imbed, Imbed' gan David Hedley Williams a'r bwriad oedd edrych nôl ar hanes y fro dros y canrifoedd a chamu'n hyderus i'r dyfodol yng ngofal 'ysbryd y mynydd'. Cynhyrchwyd y sioe gan Deryk Williams a'r maestro cerddorol oedd Seimon Morris.


Chwaraewyd prif rannau Richard a Nia gan Geraint Harries ac Eleri Hunt. Ma' nhw'n dechrau dod i nabod ei gilydd ac yn ei dryswch maen nhw'n cael ei harwain gan 'Ysbryd y Mynydd' (Gwenno Wyn) i ystyried etifeddiaeth yr ardal sy'n arwain at ail-asesiad o'u synnwyr o berthyn. Roedd disgyblion yr ysgol gymunedol yn chwarae rhan amlwg yn y pasiant.

Ymhlith y tîm cynhyrchu roedd Sian Elin Rees, Tryphena Williams, Paula Travis-Spencer, Hubert Mathias, Julie Condon, Clive Rees, Jane Williams, Nan Warlow, Reg Phillips, Les Rowlands a Richard Sellen. Cofnodwyd y cyfan ar fideo gyda chymorth Gordon Curlyman.

Dyma ddetholiad o luniau i ddeffro'r cof. Oes gyda chi atgofion a lluniau o ddathliadau yn eich pentref y gellir eu cyhoeddi yn y rhifyn nesaf? Yr un flwyddyn ceisiwyd llusgo carreg las o'r Preselau i Gôr y Cewri. Ond a gyrhaeddodd ben ei siwrne? Cewch wybod yn y rhifyn nesaf.



Rhai o'r plantos oedd yn cymryd rhan yn chwarae rhan y meini – Betsan Williams, Garry Griffiths, Mari Williams, Angharad Jenkins, Adam Edwards, Ffion Edwards a Clara Bendall






Roedd hi'n awyrgylch ffair y tu fas i'r Castle



Y cariadon Nia a Richard (Eleri a Geraint)

# WEDI 'IMBED, IMBED'



*Deryk Williams, Gwenno Wyn a Sian Elin Rees*



*Hedley George yn chwarae rhan Edward Cropper*



*Angharad Edwards, Rhydian Wyn ac Iwan Thomas yn chwarae rhan y ffermwyr*



*David Hedley a Seimon Morris yn cadw llygad*

*Siop Siân*
CRYMYCH
✆ **01239 831230**

Llyfrau, Cardiau, Casetiau,
CD's a Fideos,
Crefftau a Gemwaith o Gymru
**Tocynnau Anrheg** ar gael

**CYNGOR CYMUNED CRYMYCH**
Hysbyseb am swydd **CLERC**
Mae Cyngor Cymuned Crymych
yn cynnal 10 cyfarfod y flwyddyn
ar nos Iau cyntaf y mis.
Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd
ac am dderbyn manylion a thelerau
cysylltwch â'r cadeirydd presennol:
Cris Tomos
01239 831962 / 07974 099738
Cristomos831@gmail.com
Mae'n ofynnol bod unrhyw ymgeisydd
yn rhugl yn y Gymraeg.
Dyddiad Cau: 20/07/2020

# MENTER IAITH AR WAITH

## Gweithredu'n ddigidol

I ddilyn holl weithgareddau digidol y Fenter yn ystod y cyfnod yma – dilynnwch dudalen Cica Corona sydd ar y cyd â Menter Iaith Ceredigion ar Facebook.

Dyma ein Amserlen wythnosol:



Amserlen Cica Corona

| DYDD LLUN | DYDD MAWRTH | DYDD MERCHER | DYDD IAU | DYDD GWENER |
|---|---|---|---|---|
| 09:30 Ap/Gwefan yr wythnos | 09:30 Ymarfer Corff | 09:30 Y Cwis Mawr | 09:30 Troeon Trwstan | 09:30 Rysait i'r Penwythnos |
| 10:30 Cwis y Clipiau | 10:30 Cân yr Wythnos | 10:30 Cerdyn Post Rhodri | 10:30 Blodyn yr Wythnos | 10:30 Rhithmau Rhids |
| 11:30 Atebion Y Cwis Mawr | 11:30 Hwyl i Blant (P) | 11:30 Limrig yr Wythnos | 11:30 Hwyl i Blant (P) | 11:30 Atebion Cwis y Clipiau |
| 14:00 Dished am Ddau (C) | 14:00 Dished am Ddau (C) | 14:00 Dished am Ddau (C) | 14:00 Dished am Ddau (C) | 14:00 Dished am Ddau (C) |
| 15:00 Ras123 o'r gloch | 15:00 Criw Creu (P) | 15:00 Ras123 o'r gloch | 15:00 'Slower Dydd | 15:00 Gwener Grwfi (P) |

A llawer mwy!
*Cyfarchiad y Dydd i Fusnesau, Dywediad y Dydd, Gair y Dydd i Deuluoedd, cerddi, garddio, digwyddiadau arbennig ayyb.*

Allwedd
(C) Cysylltwch am y manylion Zoom
(P) Gweithgareddau Plant

### Gŵyl Fwyd Crymych.

Mae'r pwyllgor wedi gorfod dod i'r penderfyniad i ganslo'r Ŵyl Fwyd eleni. Yn naturiol mae hyn yn siom ac mae pawb yn drist iawn o orfod canslo'r 20fed Ŵyl Fwyd. Ond teimlad pawb oedd na fyddai modd cadw pawb yn saff a dilyn rheolau iechyd a diogelwch y pandemig, hyd yn oed os byddai'r cyfyngiadau presennol wedi codi. Diolch i bawb am eich cefnogaeth a gobeithio y byddwn nôl y flwyddyn nesaf.

### Gŵyl y Dysgwyr.




Cynhaliwyd Gŵyl y Dysgwyr eleni ar-lein oherwydd cyfyngiadau'r feirws. Cafwyd amserlen gynhwysfawr at ddant pawb. Cafwyd cydweithrediad hwylus Dysgu Cymraeg Sir Benfro ac ymateb da gan nifer fawr o ddysgwyr a gymrodd fantais o'r hyn a drefnwyd. Croesawyd pawb gan y Cynghorydd Cris Tomos a chafwyd cyfraniad gan Helen Prosser o'r Ganolfan Gymraeg Genedlaethol yn ogystal â Nia Parry, sy'n wyneb a llais cyfarwydd i bawb a gyda'r dysgwyr hefyd. Roedd y sesiynau yn cynnwys Garddio gydag Adam Jones, Trin Blodau gyda Non Davies ynghyd â choginio gyda Lisa Fearn. Bu nifer yn gwrando ar Sarah Reynolds yn darllen detholiad o'i llyfr Cyffesion Saesnes yng Nghymru a hefyd ymuno yn ystod y bore a'r prynhawn i gael coffi a sgwrs drwy gyfrwng Zoom.

Mae'n bosib mynd nôl i wylio pob dim ar dudalen Facebook Gŵyl y Dysgwyr 2020 ac mae'r sesiynau o ddiddordeb i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr fel ei gilydd. Edrychwn ymlaen at fynd nôl i fedru cynnal gŵyl yn Scolton flwyddyn nesa ond yn y cyfamser gwyliwch y gofod am weithgaredd tebyg ar-lein cyn diwedd mis Hydref!

### Gŵyl Fel 'na Mai

Ar ôl gorfod gohirio'r Ŵyl am eleni, penderfynwyd rhoi blas o beth oedd bod yn yr Ŵyl ar blatfform digidol gyda pherfformiadau yn ystod y dydd gan yr artistiaid oedd fod i berfformio'n fyw gyda ni yr yr Ŵyl a oedd wrth gwrs i'w chynnal am y tro cyntaf eleni.

Roedd tua mil o bobl wedi ymweld â thudalen yr Ŵyl yn ystod y dydd ac mae rhai perfformiadau wedi cyrraedd bron pymtheg mil o bobl.

Mae'n bosib ail fyw'r perfformiadau digidol ar dudalen Facebook Gŵyl Fel 'na Mai ar ddyddiad gwreiddiol yr Ŵyl sef Mai 16.

Bydd yr Ŵyl yn cael ei chynnal ar Fai'r Cyntaf y flwyddyn nesaf ac rydym yn gobeithio cadw at yr un lein-yp ag eleni.

### Perfformiad o Dan y Wenallt

Profiad hollol newydd i'r Fenter ac i nifer fawr o bobl oedd cymryd rhan mewn cynhyrchiad byw, ar-lein o ddrama Dylan Thomas, Dan y Wenallt ar Nos Wener, 19 Mehefin. Daeth y syniad drwy law Rowan O'Neill o Gelfyddydau Span ac aethpwyd ati o dan adain Cica Corona i greu sioe ar-lein gan ddefnyddio trosiad arbennig T. James Jones o Under Milk Wood a nifer o bobl leol a ymatebodd i'r cais. Yn wir profiad hyfryd oedd cydweithio â chriw o bobl yn ymestyn yn ddaearyddol o Dalgarreg i Dyddewi a draw i Ddinbych y Pysgod ac ystod eang o oedrannau, nifer wedi actio ar lwyfan yn y gorffennol ac yn brofiadol iawn ac eraill heb wneud ers sawl blwyddyn. Bu'r ymarferion dros Zoom nid yn unig yn hwyliog ond yn gyfle i sawl un ddatblygu eu sgiliau technolegol a mawr fu'r sbort yn aml yn ystod sawl ymarfer! Ta beth daeth y cyfan at ei gilydd yn rhyfeddol a chafwyd adborth ardderchog gan y rhai a wyliodd y perfformiad. Diolch i Rowan am y syniad, i'r criw brwd o actorion am gymryd at y dasg ac i dros gant o bobl a gymrodd y cyfle i wylio'r sioe ar y noson. Pwy a ŵyr y ceir cyfle i wneud rhywbeth tebyg eto yn y dyfodol agos... amser a ddengys!!

# CLWB FFERMWYR IFANC HERMON
## Cynorthwyo yn y gymuned



Er bod holl weithgareddau a chystadlaethau Mudiad y Ffermwyr Ifanc wedi'u gohirio am y tro, rydym ni fel CFfI Hermon wedi bod yn ceisio bod yn actif o fewn y Gymuned er mwyn gwneud yn siŵr bod ein haelodau'n dal i gael rhywbeth allan o'r mudiad.

Ar ddechrau'r "Lockdown" fe aeth poster allan oddi wrth y Clwb yn hysbysu pobl yr ardal bod aelodau o'r Clwb ar gael os oedd angen gwneud unrhyw siopa iddynt neu moyn unrhyw feddyginiaeth ar eu rhan yn ystod y cyfnod ansicr yma. Dros y misoedd diwethaf mae nifer o'n haelodau wedi bod yn gwneud hyn, i helpu'r unigolion yma. Yn ogystal ag hyn fe wirfoddolodd Sara Williams a Bill Davies i fod yn gydlynwyr lleol ar y cynllun Helo a Chymdogion Da oedd gydag ardaloedd Crymych ac Eglwyswrw.

**Prosiect Crymych**

Bu llawer iawn o'n haelodau yn helpu Prosiect Cymunedol Crymych hefyd gan dorri plastig er mwyn iddyn nhw allu gwneud masgiau i'r holl weithwyr allweddol yn yr ysbytai a chartrefi gofal yn ogystal â nifer fawr o weithwyr allweddol eraill. Fel Clwb penderfynwyd rhoi £200 iddyn nhw fel rhodd. Fe aeth Sara Williams hefyd a masgiau i Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd.

Ar ddechrau'r "Lockdown" hefyd fe benderfynodd y Clwb wneud fideo sialens toiled tŷ bach, ac fe gyfrannodd nifer fawr iawn o'n haelodau i'r fideo. Diolch i Tomos Lewis am ei roi at ei gilydd. Gan ein bod fel Clwb yn methu cwrdd yn ôl ein harfer penderfynom gynnal noson Cwis ar Zoom gyda thua 30 o aelodau a rhai o'r theuluoedd yn ymuno gyda ni. Diolch i Rhodri Lewis am fod yn Gwisfeistr.

**Rali Rhithiol**

Roedd mis Mai hefyd yn fis digon gwahanol; fel arfer byddai'r Clwb yn brysur iawn yn paratoi tuag at Ddiwrnod Rali'r Sir, ond wrth gwrs roedd y Rali wedi ei gohirio am eleni. Er hyn fe gynhaliwyd Rali Rhithiol ar lein ac fe gyfrannodd nifer o'n haelodau tuag at hyn. Da iawn Ceirian Evans am ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth barnu Ffrwyth neu Lysiau. Mae'r Clwb hefyd yn dal wrth y Llyfr Lloffion bydd mewn erbyn mis Awst.

Penderfynodd y Clwb wneud sialens 10 diwrnod ar ddiwedd mis Mai, sialens oedd yn cynnwys rhedeg neu seiclo a 3-5 munud o waith circuit, a hynny er mwyn codi ymwybyddiaeth ac arian tuag at Brosiect Cymunedol Crymych a Her 50km Gwyndaf Lewis. Cyfrannodd dros 80 o'n haelodau a ffrindiau'r Clwb yn yr her ac fe wnaethom fel Clwb gwblhau cyfanswm o dros 3,700 o filltiroedd mewn 10 diwrnod. Braf oedd cyhoeddi ein bod wedi codi £1030 tuag at y ddau achos, ac fe drosglwyddwyd £515 yr un i'r achosion teilwng iawn.

**Codi £37,000**

Hoffai'r Clwb estyn ein cydymdeimlad gyda Rhodri, Gwyndaf a Nia; y tri yn aelodau o'r Clwb a hefyd i Tudur am golli Undeg ar ddechrau mis Ebrill. Roedd o hyd yn barod i helpu'r Clwb mewn unrhyw ffordd. Llongyfarchiadau i Gwyndaf am gwblhau her 50km er cof am ei fam ond hefyd am godi swm anhygoel o dros £37,000.

Edrychwn ymlaen at amseroedd gwell, ond yn y cyfamser; os oes angen unrhyw gymorth arnoch mewn unrhyw ffordd boed yn siopa neu gasglu meddyginiaethau - cysylltwch â ni – gweler y poster. Gallwn helpu ar draws ardal eang sy'n cynnwys Blaenffos, Crymych, Hermon, Llanfyrnach, Y Glôg, Tegryn, Pentregalar, Mynachlog-ddu, Efailwen, Glandy Cross, Glandwr, Llanglydwen, Login a phentrefi cyfagos!

Byddwn yn ail berfformio'r ddrama yn Theatr y Gromlech ar yr 2il o Fawrth gyda Chlwb Ffermwyr Ifanc Penybont, Sir Gar. "Dal dy Dir" oedd y ddrama o'n heiddo o waith Gareth Ioan.

Llongyfarchiadau i Abergwaun fydd yn cystadlu yng Nghaernarfon yn cynrychioli Sir Benfro. Os hoffech ymuno â ni, ni'n cwrdd yng Nghanolfan Hermon pob nos Lun o 7:30-9:00. Croeso i bawb!



*Ymborth nobl i bobl y byd – yn y gwraidd*
*Dan ei gwrysg mae'n golud;*
*Ffein y bo, ffon y bywyd,*
*Wele rodd sy'n ail i'r yd.*
Waldo

**Os am DATO BLASUS**
**TATO GLAN, DIM WAST**
**Cwdyn 12.5k, rhwydd i'w**
**drafod a chadw,**
**Sdim ond un lle!**

BRIAN LLEWELYN a'i ferched
traditional country stores

**www.country-stores.com**
**01239 891618 / 891376**

**CELIA VLISMAS OPTEGYDD**

Am wasanaeth personol a gofal proffesiynol ar gyfer y teulu cyfan

STRYD FAWR CRYMYCH, SA41 3QG
Ffôn a Ffacs: 01239 831555

NGHASTELL NEWYDD EMLYN
3 SGWÂR Y FARCHNAD, SA38 9AQ
Ffôn a Ffacs: 01239 711888

CANOLFAN IECHYD ARBERTH, SA67 7AA
Ffôn a Ffacs: 01834 861373

**MIDWAY MOTORS**

**Shwmae Pawb. Gobeithio eich bod chi i gyd yn cadw'n iach. Dyma ychydig o wyliau sydd gennym ar ôl eleni.**

**Teithiau 2020**

5/10/20 - Gretna Green - 4 Noson - £350
9/10/20 - Torquay - 3 Noson - £185
23/10/20 - Penwythnos Ddirgel - 3 Noson - £240
27/11/20 - Penwythnos ddirgel twrci a tinsel - £285
12/12/20 - Goleuadau nadolig yn Blenheim Palace - £150
30/12/20 - Gwyliau blwyddyn newydd yn Southport - £365

**Teithiau 2021**

15/1/21 - Gwyliau Midway yn Cernyw - 3 Noson - £240
11/2/21 - Cymru v Alban Rygbi 6 Gwlad - £299

**Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan**
**www.midwaymotors.wales**

**Paratowch ar gyfer ein pamffled newydd 2021 a fydd allan yn fuan.**

**Rhif Ffon - 01239 831 267**

SOLAR PANEL SPECIALISTS
Preseli
WINDOW CLEANING

**Golchi ffenestri**
**Golchi gwteri**
**Clirio mwswm**
**Golchi tŷ**
**Golchi â dŵr dan wasgedd**
*(Pressure Washing)*

**Yswiriant llawn**
**Ffoniwch am bris cystadleuol**
**07811 323 842**

'Preseli window cleaning'
ar Facebook.
Ebost: iwanward@hotmail.co.uk

**D. E. Phillips**
**a'i Feibion**
Tan-y-Bryn, Glandwr
*Trydanwyr*
Siop Radio a Theledu
**CRYMYCH**
Setiau ar werth
Ffôn : (01994) 419361
(01239) 831589

**J. D. JONES a'i GWMNI**
**CYFRIFWYR**

TŶ AUCKLAND, CRYMYCH
FFôn: (01239) 831493

71 Y Stryd Fawr, Abergwaun
Ffôn: (01348) 873237

# Drwy'r cyfan, mae yna fendithion, gweld cymuned yn cydweithio, gweld cenedlaethau yn cydgerdded a gweld y cydweithio yn lleol

Bydd y flwyddyn 2020 yn aros yn hir yn y cof i bobol o bob oedran ac ymadroddion fel 'Covid-19', y 'Clo Mawr' a 'Coronafirws' yn eiriau newydd i'n geirfa... yn unigolion ac yn genedl gyfan.

Dechreuodd y gwaith o ymateb i a pharatoi ar gyfer y 'Clo Mawr' rhai wythnosau cyn y cyhoeddiad gan alw'r gymuned ynghyd ac anfon y trigolion allan yn ddau ac yn dri er mwyn adnabod y bobol hynny fyddai'n debygol o alw am gymorth. Diolch i bawb a fu mor barod i ymgymryd â'r gwaith.

Da gweld y gymuned yn cydweithio fel hyn er, i rai, amau a fyddai eisiau'r fath rhwydwaith.

**Ymateb yn gyflym**

Daeth y 'Clo Mawr' a ninnau mewn sefyllfa i ymateb yn gyflym i gynorthwyo a chalonogi ein cymdogion. Parhau mae'r gwaith gyda'r galwadau ffôn, yr e-byst, y siopa, dosbarthu cinio ar y Sul a'r cyfan gan gadw llygad ar y bregus a chadw'r gymdeithas yn un.



Mae'r 'Cofid' wedi dod a'i ofid a ninnau'n ymwybodol iawn o rym yr afiechyd wrth weld rhai o'n cymdogion yn profi'n bositif. Gwaith dyddiol yw cadw mewn cysylltiad er mwyn eu cynorthwyo. Gweinidogaeth arall yw cydymdeimlo gyda'r galarus a, gwaetha'r modd, mae'r hyn a ddechreuodd yn Wuhan wedi cyrraedd yr Efailwen.

**Anodd deall**

Mae'n anodd deall ambell un cofiwch ... ac ynghanol ein gofid a'n galar, gorfod gweithio gyda'r Heddlu, yr Awdurdod Lleol ac Aelod y Senedd i annog 'ymwelwyr' i ddychwelyd i'w cartrefi... nid o Loegr cofiwch, ond o Gaerdydd a dwyrain Cymru. Parhau mae'r frwydr o ddydd i ddydd.

Ond, drwy'r cyfan, mae yna fendithion, gweld cymuned yn cydweithio, gweld cenedlaethau yn cydgerdded a gweld y cydweithio yn lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol yn dod ag un o blant yr ardal adref yn ddiogel o'r wlad bell, gweld a phrofi caredigrwydd a gweld y neges Gristnogol ar lawr gwlad ac ar y we yn cyrraedd mwy a mwy o bobol.

Bydd y flwyddyn 2020 yn aros yn hir yn y cof a, gobeithio, byddwn wedi dysgu rhywbeth newydd am ein cymuned ... a'n hunain.

**Cyng Huw George, Ward Maenclochog, (Aelod Annibynnol) Gweinidog Brynconin**


**Mansel Davies a'i Fab Cyf.**

**Arbenigwyr Teithiau Hir a Byr**
**Arbenigwyr Cludo Hylif**
**Cludiant gyda Llwytho a Dadlwytho Niwmatig**
**Llwythwr ar gyfer Cludiant Trwm**
**Masnachwyr Amaethyddol**

**Magnesium, Calch, Gweryd gyda gwasanaeth sgwaru.**
**Cyflenwyr Angenrheidiau Adeiladu,**
**Perchnogion Cware,**
**Cyfleusterau Storïo a Dosbarthu**
**Cyflenwyr Calch**

PEMBROKESHIRE FREIGHT LTD

**Mansel Davies a'i Fab (Modurdai) Cyf.**

***Trwsio Cerbydau Masnachol a Pharatoi ar gyfer MOT***
***Canolfan Tacograff Cydnabyddedig Adran Gludiant***
***Gwasanaeth Rhenti Cerbydau Masnachol a Threilers***

VOLVO
PRIF GYFLENWR TRYCIAU

LLOYD'S REGISTER QUALITY ASSURANCE ISO9002

automotive mannesmann VDO Kienzle

LLANFYRNACH, SIR BENFRO. SA35 0BZ
FFÔN : (01239) 831631 FFACS : (01239) 831596

# Y CAPELI A'R EGLWYSI

## Yr Egin Gwyrdd yn fishi yn diddori trigolion Glyn Nest

**"Byddi'n teimlo'n saff, am fod gen ti obaith; yn edrych o dy gwmpas ac yn gorffwys yn ddiogel."**
***Job 11:18***

Mae Cartref Henoed y Bedyddwyr wrth reswm wedi cael ei gau i ymwelwyr yn ystod yr argyfwng Covid 19. Mae'r drysau ar gau i bobl alw draw i ymweld a dweud helo wrth deulu a ffrindiau. Ar hyn o bryd does neb ond staff gofalus y cartref yn medru fod yna i'r preswylwyr. Felly penderfynodd Pwyllgor yr Egin Gwyrdd Cymanfa Bedyddwyr Penfro tynnu gyda'u gilydd i greu gwaith celf ac ysgrifennu llythyron i godi calonnau'r trigolion. Ceisiodd y pwyllgor eu hatgoffa bod pobl dal yn meddwl amdanyn nhw, ac i greu llecyn bach lliwgar yn y cartref. Cawsom ni lawer o bethau gwahanol, e.e. enfys, blodau, pili-palod ag ambell i gwningen. Gyda'r gwaith celf hyfryd dyma ni'n bwrw ati i greu fideo bach o ffotos o'r plantos gyda'r gwaith celf ac ati. Diolch i Einir Dafydd Thomas, aelod yng Nghapel Blaenffos a Tudur Dylan Jones am ddefnydd o'u cân hyfryd 'Enfys yn y Ffenest' ar y fideo. Roedd y trigolion wedi dotio ar y fideo, ac wedi ei wylio 5 gwaith yn syth ar ôl ei gilydd!! Odyn, i ni'n byw mewn adeg ofidus, ond roedd y plant yn benderfynol i wneud rhywbeth arbennig i'r bobl arbennig yng Nglyn Nest.

Hefyd mae aelodau'r Ysgolion Sul wedi bod yn brysur yn paratoi Oedfa i roi ar lein. Fe wnaethon ei chyhoeddi ar ddydd Sul 21ain o Fehefin, sef diwrnod ein Rali Ysgolion Sul. Dyma'r Sul oeddwn fod cyfarfod fel Pwyllgor a chapeli i wobrwyo'r bobl ifanc am eu gwaith caled yn dysgu am hanesion y Beibl. Ond, wrth gwrs roedd yn rhaid i ohirio oherwydd argyfwng Covid 19. Diolch i'r Ysgolion Sul am eu parodrwydd i gymryd rhan, hefyd i'r athrawon yr Ysgolion Sul am gyd-weithio gyda'r pwyllgor i drefnu'r plant. Mae diolch arbennig yn mynd hefyd i ein siaradwr gwadd, sef Mr Edryd Eynon, Pennaeth Ysgol Gynradd Eglwyswrw. Cawsom neges arbennig o obaith am y dyfodol dim ond i ni weithio gyda'n gilydd a chadw'r ffydd. Diolch i bawb am eu hymdrechion. Os i chi am weld yr Oedfa edrychwch ar dudalen Facebook yr Egin Gwyrdd.

Diolch yn fawr i Carwyn John am y pennill arbennig yma!

I blant Egin Gwyrdd ac i Edryd
Ma'ch talent yn drwch yn ein bywyd
Y TEI...Wel na smart
O ti'n edrych y 'part'
Mawr ddiolch am anerchiad mor hyfryd.

Gweddïwn fel pwyllgor bydd yr argyfwng yma yn dod i ben, fel gallwn ni fod gyda'n gilydd unwaith eto yn enw ein Harglwydd Iesu Grist.







## Capel Llwynyrhwrdd Ffilmio yn y fynwent fach



Bu S4C yn ffilmio ar fynwent Capel Llwynyrhwrdd, Tegryn yn ddiweddar. Maent wrthi ar hyn o bryd yn gwneud

rhaglen ar y "Spanish Flu" 1918-19. Y bedd oedd o ddiddordeb iddynt oedd carreg fedd Hannah Davies, Frondeg, Glôg a gollodd ei bywyd o'r feirws ym mis Chwefror 1919.

Yn ôl yr hanes, bu farw mam Hannah sef Mary Davies yn ddeugain oed gan adael gŵr a saith o blant yn amrywio o 6 mis i 17 oed. Hannah oedd yr hynaf a gorfu iddi gymryd gofal o'r teulu sef ei thad, James, a'i brodyr a'i chwiorydd - William, Sam, John, Ivor, Pheobe a Sarah. Yr oeddent hefyd wedi colli brawd yn ddwyflwydd oed.

Gorfu'r ddau frawd, William a John, fynd i'r Rhyfel a chafodd John ei ladd ym Mhalesteina. Daeth William adre ond yn anffodus roedd wedi dal y feirws tra oedd i ffwrdd. Bu Hannah yn gofalu amdano yn ei salwch ac er iddo ef wella, cafodd hi ei heintio a bu farw yn 32 mlwydd oed. Hanes hynod o ddiddorol ond trist iawn.

Mae llawer ohonom yn cofio'n dda am deulu dawnus Frondeg gyda William a Sam yn Arweinyddion y Gân yn Llwynyrhwrdd am gyfnod hir. Y ddau wedi dysgu canu i sawl un ohonom pan oeddem yn ifanc. Roedd Ivor hefyd yn flaenllaw yn ardal Ffynnongroes fel ysgolfeistr a sefydlydd parti Noson Lawen.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar i wylio'r rhaglen sef "Pandemig" rhywbryd yn yr Hydref.

## Bedyddwyr Cylch y Frenni

Yn sgil y cyfnod clo oherwydd y Covid-19, nid oes oedfaon ar y Suliau nag oedfaon gweddi wythnosol wedi eu cynnal ers tro, ond diolch am y dewis eang o oedfaon sydd i'w cael ar y cyfryngau cymdeithasol a'r we bob wythnos. Bu rhaid dileu'r Gymanfa Ganu eleni a oedd i'w harwain gan y Bnr Trystan Lewis, ond fe sicrhawyd ei wasanaeth e' ar gyfer y flwyddyn 2021.

Y digwyddiad nesa' ar yr amserlen oedd y Gymanfa Bwnc a gynhelir yn flynyddol ar y Sulgwyn - ond gohirio hon bu rhaid, hefyd. Noson boblogaidd iawn ar y calendr, yw'r noson gymdeithasol a gynhelir tua chanol Ebrill gyda phwyllgor yr Egin Gwyrdd. Yn y blynyddoedd dwetha' cynhaliwyd hi ym Maenor Llwyngwair, ac mae hon yn noson i bob oed lle gwahoddir gwestai i drefnu gweithgaredd amrywiol, i ddilyn pryd o fwyd blasus.

Ar hyn o bryd edrychir yn annhebyg y cawn gynnal ein cyfarfodydd blynyddol na thaith flynyddol yr Ofalaeth yn ystod yr Haf - ond mewn ffydd edrychwn ymlaen am yr Hydref gan weddïo bydd y feirws corona wedi diflannu'n llwyr. Pob bendith , cadwch yn saff, ac yn ngeirie Paul yn ei lythyr at y Colosiaid :- "Rhaid i chi ddal i gredu, a bod yn gryf ac yn gadarn, a pheidio gollwng gafael yn y gobaith sicr mae'r newyddion da yn ei gynnig i chi. Dyma'r newyddion da glywoch chi, ac sydd wedi'i gyhoeddi drwy'r byd i gyd."

## Capel Ebeneser Dyfed

Gyda'r gwasanaeth olaf dros dro wedi bod ar ddydd ein nawdd Sant, cyfnod rhyfedd yn hanes y Capel yw cofnodi gwacter o dri mis hyd yn hyn o ddiffyg cyd-addoli yn Eglwys Ebeneser Dyfed. Nid oes cyfnod tebyg wedi bod ers gaeafau 1947 a 1963 yn 'nol aelodau hynaf yr Eglwys.

Cymerwyd y cyfle o lonyddwch yn y Capel i adnewyddu'r ail fynwent ac i wneud gwaith angenrheidiol o amgylch adeilad y Capel. Bellach mae'r Capel a'r fynwent yn edrych ar ei gorau a diolch i Gwmni Alan James ai Feibion, Tegfan am gymryd at y gwaith.

Balch i'w deall fod ein haelod, Mrs Sioned Phillips, yn gwella wedi cyfnod o driniaeth yn yr ysbyty ac yn edrych ymlaen at adferiad llwyr. Dymuniadau gorau i Sioned a'r teulu. Mae cydymdeimlad yr Eglwys yn cael ei estyn i deulu Trerhys, Trewyddel, yn eu profedigaeth o golli tad a thad-cu annwyl. Mae ein cofion a'n gweddïau gyda Etta, Richard, Nia a'r merched. Coffa da am Willie Trerhys.

Yn yr un modd estynnwn gydymdeimlad yr aelodau i Mrs Siân James, Awen Teifi, yn ei galar o golli ei mam yn ystod y misoedd diwethaf. Cofion a chydymdeimlad i Geraint, Angharad a Fflur yn eu galar o golli aelod annwyl o'r teulu.

Estynnwn hefyd fel Eglwys ein dymuniadau gorau i holl aelodau'r Eglwys yn ystod y cyfnod anodd hwn ac yn arbennig cofiwn yn ein gweddïau am aelodau hŷn yr Eglwys a phlant yr Ysgol Sul a'u teuluoedd. "Fy nghymorth a ddaw oddi wrth yr Arglwydd".

## Partneriaeth Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro yma i helpu wrth i ddisgyblion ac athrawon ddechrau dychwelyd yn raddol

Wrth i athrawon a disgyblion baratoi i ddychwelyd yn raddol i'r ysgolion, mae Partneriaeth Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro'n amlygu manteision dysgu yn yr awyr agored i lesiant a'r rôl allweddol y gallai chwarae ynddo.

Mae Partneriaeth Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro'n bwriadu helpu ysgolion i ddarparu profiadau dysgu diogel sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, gan gynnig addysg werthfawr, ddiddorol ac ysbrydoledig ar dir ysgol ac yn yr ardaloedd lleol.

Mae'r bartneriaeth, sy'n cael ei chydlynu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn rhwydwaith deinamig o sefydliadau arbenigol, penaethiaid ac ymgynghorwyr yr awdurdod lleol sydd ag amrywiaeth eang o brofiadau ac arbenigedd mewn dysgu yn yr awyr agored.

Dywedodd Bryony Rees, Cydlynydd Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro, "Mae'r bartneriaeth yn barod i gefnogi ac annog dysgu plant ar draws Sir Benfro yn yr awyr agored, gyda'r grwpiau a'r sefydliadau sy'n rhan ohoni'n gallu helpu ysgolion i ddarparu gweithgareddau gwych i ddisgyblion.

"Mae dysgu yn yr awyr agored yn gyfle gwych i gadw pellter cymdeithasol a lleihau trosglwyddo clefydau. Mae bod yn yr awyr agored hefyd yn fuddiol i lesiant disgyblion a staff. Mae dysgu yn yr awyr agored wedi bod yn rhan boblogaidd o addysgu gartref ac mae ganddo rôl bwysig i'w chwarae wrth i ysgolion symud at gyfuno addysgu yn yr ysgol a gartref.

"Bydd y mannau awyr agored o gwmpas yr ysgol ac yn yr ardal leol yn bwysig iawn ar gyfer llesiant plant oherwydd bydd dysgwyr yn gallu osgoi'r angen i ddefnyddio trafnidiaeth fel bysiau, a allai achosi problemau o ran cadw pellter cymdeithasol.

Mae arweiniad diweddar Llywodraeth Cymru i ysgolion wedi pwysleisio gwerth dysgu yn yr awyr agored yn ystod y cyfnod o ddychwelyd yn raddol. Roedd hefyd yn amlygu manteision corfforol, meddyliol ac addysgol cynnal dosbarthiadau yn yr awyr agored.

I gael rhagor o wybodaeth am Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro, cysylltwch â Bryony Rees drwy anfon e-bost bryonyr@pembrokeshirecoast.org.uk, ffonio 07870 488014 neu drwy fynd i www.pembrokeshireoutdoorschools.co.uk

# Bysiau Cwm Taf



*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*

**CEFNOGWYR BALCH O ELUSENNAU CANSER**

## Teithiau 2019 / 2020

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llun 7 Medi | DIRGELWCH MIS MEDI | £340 | 5 Diwrnod |
| Llun 14 Medi | YNYS MANAW | £465 | 5 Diwrnod |
| Sul 20 Medi | RHYFEDDODAU WELLS A GWLAD YR HAF | £395 | 5 Diwrnod |
| Gwener 25 Medi | BIDEFORD AM Y PENWYTHNOS | £240 | 4 Diwrnod |
| Sul 4 Hydref | BANTRY A'R ARFORDIR - IWERDDON | £495 | 6 Diwrnod |
| Llun 12 Hydref | GOLEUADAU BLACKPOOL | £285 | 5 Diwrnod |
| Llun 19 Hydref | GREAT YARMOUTH A THRAETHAU AUR NORFOLK | £375 | 5 Diwrnod |
| Gwener 30 Hydref | DIRGELWCH YR HYDREF | £299 | 4 Diwrnod |
| Llun 9 Tachwedd | NADOLIG YN OES FICTORIA - YNYS WYTH | £395 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 14 Tachwedd | YSBLANDER Y NADOLIG YN THURSFORD | £315 | 4 Diwrnod |
| Sadwrn 21 Tachwedd | MARCHNADOEDD NADOLIG BIRMINGHAM A CHAERLOYW | £125 | 2 Ddiwrnod |
| Sadwrn 21 Tachwedd | CELYN AG UCHELWYDD YN LLANDUDNO | £375 | 5 Diwrnod |
| Gwener 27 Tachwedd | TINSEL A TORQUAY | £265 | 4 Diwrnod |
| Gwener 27 Tachwedd | MARCHNADOEDD NADOLIG MANCEINION A CHAER | £185 | 3 Diwrnod |
| Mercher 30 Rhagfyr | DATHLU'R FLWYDDYN NEWYDD YN BOURNEMOUTH | £395 | 4 Diwrnod |

**Annwyl Gwsmeriaid,**
**Gobeithio eich bod chi gyd yn cadw'n ddiogel.**
**Fe fyddwn yn ôl ar y gwyliau cyn gynted â phosib, pan fydd hi'n sâff i wneud.**
**Diolch am eich cefnogaeth.**




## Teithiau Undydd 2019 / 2020

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn 5 Medi | Ffair Hen Bethau Cymru - Llanfair ym Muallt | £15.00 |
| Mawrth 29 Medi | Henffordd a chasglu ffrwythau | £18.00 |
| Mawrth 27 Hydref | Sain Ffagan / Caerdydd | £14.00 |
| Mercher 4 Tachwedd | Book of Mormon - Canolfan y Mileniwm - (Tocynnau yn y pris) | £68.00 |
| Mawrth 10 Tachwedd | Trago Mills - Merthyr Tudful | £15.00 |
| Mawrth 24 Tachwedd | McArthur Glen - Pen-y-Bont ar Ogwr | £14.00 |
| Llun 30 Tachwedd | Ffair Aeaf - Llanfair ym Muallt | £15.00 |
| Mawrth 8 Rhagfyr | Siopa Nadolig - Abertawe | £10.00 |
| Mawrth 15 Rhagfyr | Siopa Nadolig - Caerdydd | £14.00 |

**NIFER CYFYNGEDIG O LEFYDD CODI – Ffoniwch am fanylion**

*Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau.*

*Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion.*

*Gwyliau, Theatrau & Phenwythnosau – Teithiau hir a byr.*

*Ffoniwch a gadewch y gweddill i ni!*

**www.tafvalleycoaches.co.uk**

**Ffôn : 01994 240908**

**Os am deithiau hwylus braf, dewch da ni ar Fws Cwm Taf.**

**GARETH DAVIES**
**ADEILADWR**

Gwaith Adeiladu Newydd,
Estyniadau ac Atgyweiriadau,
Gosod Ffenestri a Drysau,
Gosod Ceginau – Gosod Teils,
Ystafelloedd Gwydr, Ffasgau,
Bondoeau a Chafnau,
Patios, Llwybrau Cerdded, Rhodfeydd,
Lloriau – Plastro a Sgimio

Gwasanaeth cyfeillgar a dibynadwy!
**Ffoniwch Gareth ar**
**07812 077556 / (01239) 841235**

**Siop Wledig Draddodiadol.**

Llysiau a Ffrwythau ffres.
Wyau'r maes.
Cwrw traddodiadol.
Llaeth Organic.
Halen Mon. Mel lleol.
Cacennau Rhydwen.

BRIAN LLEWELYN a'i ferched traditional country stores

Crefftau o Gymru.
Basgedi Helyg,
Clustogau,
Gwaith Llechi,
Anrhegion unigryw.
Cardiau Cymreig.



Dillad Glaw moethus, Wellingtons traddodiadol neu rhai lledr.
Offer gardd a fferm!
Glo a Choed tan, Nwy Calor.
Galwch heibio! Croeso cynnes i bawb.
**Ar agor 7 diwrnod yr wythnos.**
**01239 891618 / 891376**
**www.country-stores.com hefyd ar Facebook!**

**BWYDYDD ANIFEILIAID**
**BWLCHYGROES**

*Masnachwyr Amaethyddol*

**Bwyd Anifeiliaid ~ Ffensio ~ Hadau**
**Gweryd ~ Popeth ar gyfer y fferm**

**Am bris cystadleuol,**
**ffoniwch 01239 698226**

**WYN**
**VAUGHAN**

**PEIRIANNYDD**
**GWAITH PLYMIO/**
**GWRES CANOLOG**

DANDDERWEN
CWM PLYSGOG

CILGERRAN. SA43 9TA

**01239 615587**
**07968 870115**

**CWARE PANTGWYN**

Tywod Adeiladu ~ Tywod Concrid ~ Tywod Fferm

Cerrig ~ Cerrig Lliw Addurniadol ~ Grafel

TYWOD GWELY ANIFEILIAID YN SYTH
O'R CHWAREL I'R FFERM

**www.cwarepantgwynquarry.co.uk**

**Ffôn: 01239 881246** **Symudol: 07900 160800**

# Cyd-dynnu a £270,000 i fusnesau £30,000 i'r Ganolfan Ddarllen a dwy Neuadd Gwirfoddolwyr yn dosbarthu papurau bob dydd

Cyfnod rhyfedd yw cyfnod y Cofid. Cyfnod o zoom a skype. Cyfnod o weld anwyliaid a chyfeillion yn cael eu colli, a chyfnod gofidus i'r henoed a'r bregus yn ein plith.

Nid mater o reidrwydd ond mater o ddyletswydd oedd sefydlu grŵp Cefnogi Cilgerran a Maenordeifi. Dros 60 o wirfoddolwyr yn barod i gynnal y traddodiad hynny o edrych allan am gymdogion a chyfeillion. Yn wir ers cychwyn y cyfnod mae yno dros 300 o sesiynau gwirfoddoli wedi digwydd yn ddi-dor yng Nghymuned Cilgerran a Maenordeifi.

Cychwynnodd y dasg ar ben wythnos yr 21ain o Fawrth pan argraffwyd a dosbarthwyd 1,200 o daflenni i bob cartref o Lan-rhyd yn y gorllewin i Gwm Cych yn y dwyrain. Gwirfoddolwyr o bob cornel o'r gymuned yn gwneud eu tamaid. Taflen oedd yn cynnig a hysbysebu gwasanaeth y grŵp cefnogi mewn partneriaeth a Siop y Pentre' Cilgerran.

Mewn mater o dri diwrnod roedd dau wirfoddolwr y dydd yn cymryd at y gwaith dyddiol saith niwrnod yr wythnos o ymweld â 62 o gartrefi i ddosbarthu papurau a nwyddau, ac yn bwysicach na dim yn holi allan am les unigolion. Mae'r gwasanaeth hynny yn dal i ddigwydd ers diwedd mis Mawrth, a hyd yn hyn dim diwrnod wedi ei golli.

Un peth sydd wedi amlygu ei hun yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn, sef faint sydd yn dibynnu ar bresgriptiwn doctor. Rydym wedi bod yn dosbarthu ar gyfartaledd gyda Chymorth Beicwyr Aberteifi tua 30 o brescriptiwns yr wythnos.

Cyfnod od yw'r cyfnod yma. Ond mae hefyd wedi bod yn gyfle i weld ysbryd cymunedol gofalgar ar i orau. Yng Nghapel Newydd aeth Aled Lewis a'i fab, Owen, ati i adnewyddu'r gysgodfa'n bws, Hedydd Tafarn Ffynnone yn trefnu pryd ar glud i'r rhai hynny oedd angen y gwasanaeth. Aled hefyd a fu yn arwain y tîm gwirfoddol yng Nghapel Newydd.

Yn Abercych daeth cymdogion i adnabod ei gilydd yn well. Un wedi cymell a chefnogi dynes oedrannus i gael yr hyder i fynd at feddyg am ofal brys. Heb y cymorth hynny, fyddai wedi bod yn stori dra gwahanol. Beth sydd hefyd wedi dod yn amlwg yw'r nifer sydd yn byw wrth i hunain ac angen help a chwmni.

Yng Nghilgerran penderfynwyd o'r cychwyn fod cyfle mawr i amlygu priodoleddau gwerthfawr adnodd lleol Siop y Pentref. Ac mae'r bartneriaeth wedi bod yn fendith o'r cychwyn cyntaf. Nia a'r merched wedi gweithio fel un gyda'r gwirfoddolwyr i ddarparu gwasanaeth sydd wedi ymateb i holl ofynion y gymuned. Gobeithio yn wir fydd pobol yn cofio am ymdrech y Siop ac yn dal i edrych tuag at Siop y Pentre am eu nwyddau a chynnyrch lleol dyddiol wedi i'r clefyd dieflig yma ddiflannu.

Rhaid peidio ag anghofio ein busnesau a'r caledu sydd wedi dod yn sgil y clefyd. Braint oedd cefnogi dros 22 o fusnesau yn y ddwy gymuned sydd wedi elwa o gynllun cefnogi ariannol y Llywodraeth. Amcangyfrif fod tua £270,000 wedi ei dalu i fusnesau cymwys yn ardal Cilgerran a Maenordeifi yn unig. Hefyd yn gymwys wedd Stafell Ddarllen Capel Newydd, Neuadd Abercych a Neuadd Bentref Cilgerran. Y tri wedi derbyn £10,000 yr un.

Wrth edrych 'nol ar y tri mis diwethaf, ma' dyn yn medru cymryd balchder o wir ysbryd byw cymunedol y ddwy gymuned yn Nyffryn Teifi, Cilgerran a Maenordeifi. Braint yw medru rhoi rhywbeth 'nôl i ardal sydd wedi bod yn garedig eu cefnogaeth i mi ers 1999. Mae'r diolch pennaf i'r gwirfoddolwyr, un ac oll. Pleser yw cynrychioli ardal sydd yn deall gwir ystyr cyd-dynnu a hawddgarwch dynol. Chwi iyw halen y ddaear.

**Cyng John 'Cwmbetws' Davies, Ward Cilgerran, (Aelod Annibynnol)**



*Nia wedi paratoi llond bocs arall o nwyddau yn Siop y Pentre*



*Martin Lloyd a John Cwmbetws bron gwacau'r cerbyd*



Tipyn o waith llwytho ar gyfer dosbarthu





Tipyn o waith cario i bob aelwyd a chofio pob dim



Wrthi'n adnewyddu'r gysgodfa bws yng Nghapel Newydd, Aled ac Owen Lewis

# Gogoniant natur



Y cacwn ddim yn becso
am hunan-ynysu na chadw pellter
a chyfyngiade trafaelu. Ma 'da fe waith
i'w wneud. Llun: Hefin Parry-Roberts.



A'r un modd y cnocell y coed
ysblennydd hwn – y gnocell fraith fwyaf
- a dynnwyd gan Tommy Evans.



Llun arall gan Tommy Evans –
glas y dorlan.
Oes gennych chi lun i'w rannu?

# Diolch i Mathew, Stacy, Shelley, Iwan a bois y frigâd dân yng Nghrymych am yr holl drefnu ac i bawb sydd wedi bod yn gwirfoddoli... codwyd dros £40,000

Mae pwysigrwydd cysylltiadau cymunedol wedi dangos eu gwerth dros y misoedd diwethaf yn ystod cyfnod y pandemig COVID19. Mae yn bwysig i roi diolch enfawr i'r gweithwyr rheng flaen sydd wedi cyfrannu sut gymaint at gadw'r gwasanaethau sylfaenol i fynd.

Hefyd wrth gwrs i ddiolch ac i werthfawrogi'r gwirfoddolwyr yn y gymuned gyda mudiad a chwmnïau lleol yn dod i gefnogi'r bobol fregus gan sicrhau, bwyd, cyflenwadau meddyginiaeth a chyfeillgarwch dros yr amser rhyfedd yma.

Mae mudiadau fel y clybiau ffermwyr ifanc, grwpiau pentrefol a gwasanaethau fel y frigâd dan a'r heddlu wedi bod yna i gyd-dynnu yn lleol a sicrhau fod y rhai sydd yn unig a heb berthnasau yn yr ardal yn derbyn y cymorth angenrheidiol.

Gwelwyd ymdrech arbennig o effeithiol yng Nghrymych wrth i'r prosiect masgiau cymunedol fwrw ati i gasglu arian a dod a defnyddiau crau i greu masgiau plastig gorchuddio wynebau yn llawn.

**£2,000 mewn wythnos**

Gyda'r prosiect masgiau yng Nghrymych, y targed gwreiddiol oedd codi £500 ond o fewn wythnos yr oedd y swm wedi croesi £2,000. Erbyn heddiw mae dros £34,000 wedi dod i mewn dros y we a £6,000 arall mewn rhoddion arian a sieciau.

Mae hyn wedi arwain at dros 70,000 o'r masgiau wedi'u cynhyrchu gyda 57,000 wedi mynd allan i gartrefi henoed, gwasanaeth iechyd, siopau bwyd a phobol sydd angen ei gwarchod rhag y firws. Diolch i Mathew, Stacy, Shelley, Iwan a bois y frigâd dân yng Nghrymych am yr holl drefnu ac i bawb sydd wedi bod yn gwirfoddoli ac wedi rhoi arian wrth helpu allan gyda'r gwaith arbennig yma.

**Hwb Cymunedol**

O fewn y cyngor sir mae Hwb Cymunedol Sir Benfro wedi ei sefydlu ar gyfer unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen ar bobol yn ein cymunedau yn ystod y pandemig. Mae'n bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Penfro, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol (PAVS), a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae'r Hwb Cymunedol wedi derbyn ac ymateb i dros 5,300 o alwadau ffôn ac yn parhau i gefnogi'r 5,553 o'r bobl sy wedi derbyn llythyr cysgodi o fewn Sir Benfro.

Mae'r llythyr gan Brif Swyddog Meddygol Cymru wedi cyrraedd y rhai sydd yn cysgodi ac yn amlinellu sut y bydd cysgodi yn gweithio tan 16eg Awst. Mae bocsys bwyd wythnosol, ar gyfer y rhai nad oes ganddynt unrhyw ffordd arall i gael bwyd, wedi mynd allan i fwy na 1,650 o bobl yn Sir Benfro.

**Rhwydwaith Cymunedol**

Yn ogystal â'r Hwb Cymorth mae yna fenter newydd o'r enw Rhwydwaith Cymorth Cymunedol Sir Benfro (RCCSB) wedi ei greu ac erbyn hyn mae nifer y grwpiau cymorth cymunedol cofrestredig nawr yn 94 grŵp pentrefol. Cofiwch hefyd fod enwebiadau ar gyfer Gwobrau Gwirfoddolwyr Blynyddol PAVS ar agor nawr a da bydde gweld enwau o ardal cymunedau Papur Bro Clebran yn mynd i mewn.

Os hoffai unrhyw un ymuno â'r rhwydwaith o wneuthurwyr cymunedol yn Sir Benfro, neu os mae unrhyw grwpiau cymunedol yn chwilio am orchuddion wyneb ffabrig, cysylltwch â Sarah Harvey yn PAVS sy'n cefnogi'r rhwydwaith ar sarah.harvey@pavs.org.uk ffôn 07971 598121.

Gwybodaeth gyswllt Hwb Cymunedol Sir Benfro yw www.sir-benfro.gov.uk/communityhub Ffôn: 01437 776301 (ar gael 9 am-5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, 10 am-2pm Dydd Sadwrn)

**Poen a chaledi**

Mae'r pandemig wedi dod â phoen a chaledi aruthrol i bobl yn lleol a ledled y byd. Mae'r Lockdown wedi ein gwahanu oddi wrth ein hanwyliaid, ein cymunedau a'n ffrindiau, ac wedi achosi straen ariannol a phersonol sylweddol i nifer.

Mae miloedd o bobl dros y wlad a dros y byd wedi colli eu bywydau i'r salwch ofnadwy hwn, a bydd effeithiau iechyd y cyfnod hwn gyda ni am flynyddoedd lawer i ddod.

Ond ochr yn ochr â'r boen rydym hefyd wedi bod yn dyst i ymateb rhyfeddol ein cymunedau: o garedigrwydd a thosturi cymdogion yn helpu cymdogion, i staff y sefydliad cymunedol a gwirfoddolwyr sydd wedi bod yn gweithio o ddydd i ddydd, ochr yn ochr â gweithwyr allweddol eraill, i helpu cael pobl trwy'r amseroedd anoddaf.

**Gwerthoedd modern**

Mae'n amser nawr i edrych ar werthoedd ein bywyd modern, mae angen mwy o gefnogaeth, arian a phŵer yn lleol o fewn ein cymunedau. Mae hyn nawr yn fater brys ac angenrheidiol, i helpu a thaclo'r heriau mawr sydd o'n blaenau. Does dim angen dylunio sefydliadau mawr rhanbarthol newydd, dim ond cefnogi mudiadau lleol cymunedol, fel y rhai sydd wedi camu ymlaen dros yr amser heriol yma. Mae gan fudiadau lleol y ddealltwriaeth i daclo ein sialensiau cymdeithasol, economaidd a phroblemau amgylcheddol.

Fe allwn nawr osod y telerau ar gyfer dyfodol newydd ble allwn adeiladu systemau cymorth o amgylch pŵer cymunedol. Mae gwaith ymchwil cenedlaethol nawr yn dangos mae yn aml, sefydliadau cymunedol fu'r cyflymaf i symud ac addasu eu gwasanaethau i'r argyfwng - ond mae angen cefnogaeth arnynt i gwrdd â heriau'r dyfodol.

**Cefnogaeth effeithiol**

Sefydliadau cymunedol fu'r glud sydd wedi dal yr ymateb cymunedol at ei gilydd - gan gydlynu a chysylltu grwpiau llawr gwlad ag ymatebion y sector cyhoeddus a phreifat. Mewn ardaloedd lle mae gan y sector cyhoeddus, cymunedol a phreifat eisoes berthnasoedd cydweithredol cryf, roedd cefnogaeth ar gael yn gyflymach ac mae wedi bod yn fwy effeithiol.

Mae sefydliadau cymunedol wedi gallu harneisio'r cynnydd mewn

ysbryd cymunedol - gan weithio gyda grwpiau ar lawr gwlad a chydlynu'r gwirfoddolwyr lleol.

Mae'r argyfwng coronafirws wedi dangos inni werth ein cysylltiadau cymunedol. Yn awr mae angen buddsoddi yn bellach ynddynt a chydnabod y gwerthoedd hynny.

**Cyng Cris Tomos, Ward Crymych (Plaid Cymru)**



*Ma' rhaid bod yn ofalus, gwlei*




*Mae'n rhaid dal ati*



*Diolch am yr offer diogelu*



*Ma' rhaid gwisgo'r cyfarpar*



*Staff y Fferyllfa yng Nghrymych yn gwisgo'r gorchuddion wyneb a wnaed yn Neuadd y Farchnad*



*Ma' rhagor yn barod fan hyn*

# Hwyl 'Hyd y Pwrs' – cyfres arall?

Gawsoch hi hwyl yn gwylio'r gyfres 'Hyd y Pwrs' ar S4C? Roedd y gyfres gomedi yn chwa o awyr iach ac yn torri tir newydd. Gawsoch chi eich hun yn dynwared rhai o'r cymeriadau ac yn ail-adrodd rhai o'r dywediadau? Mae hynny bob amser yn arwydd o gyfres sy'n cydio. A beth am y Ddau Ddic - y ddau dditectif trwstan a'u hoffter o alw yn Tafafn ŷf Afaf? A'r ddau yrrwr lorri wedyn ar eu ffordd i Dundee ond prin wedi cyrraedd ymhellach na Thremain gydol y gyfres?

Roedd yna ddiddordeb lleol amlwg. O ran y ffilmio gwelwyd y Ddau Drycar yn cael pryd o fwyd anferth yng Nghaffi Beca ac roedd y golygfeydd ohonyn nhw'n gyrru yn dangos tirwedd y Preselau. O ran yr actio a'r cynhyrchu wedyn roedd yna gynrychiolaeth leol gref. Rhodri Ifan ac Iwan John yn actio amrywiaeth o gymeriadau a Rhys, brawd Iwan, wedyn, yn cynorthwyo gyda'r sgriptio a'r cynhyrchu.

A pha ryfedd fod ganddyn nhw hiwmor unigryw. Mae'r straeon am smaldod Ab y Bwtsiwr, Llanfyrnach, hen-wncwl Iwan a Rhys, yn dal i gael eu hadrodd... glywsoch chi amdano'n gosod darn o gig yn slei bach yn sgiw'r Lamb yn Hermon a dychwelyd ymhen wythnos a dannod y drewdod oedd yno...

Mae'r criw yn ysu i fynd ati i baratoi cyfres arall. Profodd triniaeth trawsblaniad Iwan yn llwyddiannus ac mae'r jiws creadigol yn llifo unwaith eto draw ym Mridell fan 'na. Hyd yma does dim cyfres arall wedi'i chomisiynu gan fod S4C yn ymdopi â cheisio creu rhaglenni nad oes rhaid defnyddio ond y lleiafswm o ffilmio awyr agored yn ystod cyfnod y feirws.

Yn y gobaith y daw yna arlwy pellach a chyfle i enjoio mas draw hyd y pwrs dyma rai lluniau i'ch atgoffa o'r hyn a welwyd hyd yma. Ymhlith yr actorion rheolaidd eraill roedd Dion Davies, Aeron Pugh a Rolant Rhys tra roedd Steffan Rhys Williams – y gŵr a roes aren i Iwan – yn gyfrifol am y gerddoriaeth. Gwelwyd ymddangosiad gan Caryl Parry Jones ar un rhaglen hefyd.



*Y Ddau Ddic sy'n dal heb ddatrys yr un llofruddiaeth*



*Dynwared un o raglenni mwyaf poblogaidd S4C.*
*Prin y clywch chi'r ymadrodd 'Drychid mlân' mwyach!*



*Y Ddau Drycar (Rhodri ac Iwan) wedi claddu bobo blated yng Nghaffi Beca*

## DIHAREB Y MIS

Gwaethaf gelyn, calon ddrwg

CANOLFAN EURONICS

ELECTROLUX

Peiriannau Golchi a Golchi Llestri, Rhewgelloedd ac Oergelloedd

LEC

BELLING

CLUDIANT AM DDIM

Ffyrnau Trydan wedi'u hadnewyddu

HOTPOINT

TRICITY BENDIX

*Gallwn gystadlu'n fwy ffafriol na'r siopau mawr. Dewch draw i flasu'r dewis helaeth i'r cartref neu'r busnes.*

☎ 01437 532325 J. HARRIES MAENCLOCHOG

## Hanes yr Hinsawdd 3:

# Tanau Mawr Awstralia



*Diffoddwyr tân wrth eu gwaith yn y goedwig (llun o'r we).*

Ar ddechrau'r flwyddyn, trychineb mawr y byd oedd y tanau oedd yn dinistrio cefn gwlad Awstralia. O ganlyniad, llosgwyd dros 12 miliwn hectar o dir, collodd 29 o bobl eu bywyd ac fe laddwyd tua biliwn o anifeiliaid gwyllt.

Cyn i'r tanau ddechrau, yr oedd Awstralia wedi dioddef y flwyddyn gynhesaf a sychaf erioed, ond yr oedd mwy y tu ôl i'r trychineb nag effeithiau cynhesu byd eang. Ers hynny mai 'coelcerth' y Covid wedi sgubo trwy'r byd ac ni ellir ond sylwi fod diffyg parch at y byd naturiol yn sail i'r broblem honno hefyd.

### James Cook

Yn yr ysgol, dysgasom mai'r fforiwr James Cook oedd y cyntaf i ddarganfod Awstralia. Honiad hurt o gofio fod yna gymunedau ffyniannus wedi byw ar yr ynys am filoedd o flynyddoedd cyn hynny. Bywyd crwydrol oedd bywyd y cynfrodorion gyda'r teuluoedd yn symud o le i le i hela ag i gasglu planhigion. Iddynt hwy, yr oedd gan bob bryn ac afon arwyddocâd ysbrydol ac yr oeddynt yn credu fod y byd wedi ei lunio amser maith yn ôl mewn cyfnod a enwid 'Cyfnod y breuddwydio' (Dreamtime).

### Rheoli'r gwyllt

Serch hynny, rhaid cofio nad tir gwyllt oedd Awstralia ond gwlad lle yr oedd y brodorion yn ymyrryd yn gyson i gynnal eu hamgylchfyd. Tân oedd yr arf a ddefnyddid i reoli'r gwyllt ac fe drefnwyd tanau bach, nid yn unig i hybu tyfiant, ond i osgoi tanau mawr. Yr oedd coed cynhenid Awstralia yn medru goddef tipyn o wres ac fe allai'r anifeiliaid ffoi o afael tân ynysig. Yr enw modern ar y dechneg hon o drin y tir oedd cultural burn a'r gyfrinach oedd gwybod pryd a ble i gynnu'r tanau.

Wedi'r Ail Ryfel Byd, chwalwyd llawer o'r cymunedau brodorol a bu rhaid mabwysiadu trefn newydd i warchod y gwyllt. Yr oedd y drefn newydd yn un cymhleth ag uchelgeisiol ac, o ganlyniad, yn gostus. Torrwyd lonydd llydan i ynysu darnau o'r goedwig ac fe gyflogwyd gweithlu i losgi'r prysgwydd oedd yn cuddio'r llawr.

### Scott Morrison

Wrth i'r byd gynhesu, fe gynyddodd y gost o warchod ond daeth cyfle i laesu dwylo rhwng 2010 a 2015 pan drodd y tywydd yn wlyb. Ym 2016, llethwyd y wlad gan wasgedd economaidd ac ni fu'r gwleidyddion yn hir cyn galw am doriadau sylweddol yn y cyllid. Pan etholwyd Scott Morrison yn Brif Weinidog ym 2018 cynyddodd y toriadau ac anghofiwyd y cyfan am bob mesur amgylcheddol.

Yn ôl ei wrthwynebwyr, Scott Morrison yw Donald Trump Awstralia. Fel Trump, nid oedd yn cydnabod peryglon y newid a welwyd yn yr hinsawdd ond yr oedd yn awyddus i allforio mwy o lo. Pan ddechreuodd y tanau, yr oedd mewn sefyllfa chwithig ond ni fu yn hir cyn beio'r ecolegwyr am amddiffyn ardaloedd gwyllt.

### De Cymru Newydd

Ond ni fu'r cyfryngau yn hir cyn profi mai diffyg cyllid a diffyg paratoi oedd y tu ôl i'r trychineb. Un dalaith a welodd ddistryw mawr oedd De Cymru Newydd (New South Wales). Yno, yr oedd y gwasanaeth tân wedi colli $13 miliwn o'i chyllid a cholli nifer sylweddol o ddiffoddwyr.

Ni chafodd Morrison fawr o groeso pan ymwelodd â'r ardal i gydymdeimlo. Yn wir, nid oedd neb yn barod i ysgwyd llaw o flaen y camerâu a, chyn hir, yr oedd yn rhedeg i guddio yn ei gar. Anodd dweud beth a ddigwydd yn y dyfodol, ond y mae yna alw cynyddol am ymchwiliad trwyadl.

Hanes nid annhebyg i'r oedi a welwyd ym Mhrydain ar ddechrau argyfwng y Covid. Wrth gwrs, ni ddylid disgwyl gwell o law unrhyw blaid sy'n dibrisio cyfraniad y sector gyhoeddus ac yn diystyru cyngor arbenigwyr.

Glen George

**Beth am hysbysebu yn Clebran?**
Cysylltwch â Dylan: 01239 831163
dylanthomas191@btinternet.com

Arthur Morgan
GWASANAETH SCANIO
SCANIO
DEFAID A GWARTHEG
ARTHUR MORGAN
07721 786 292
IFAN MORGAN
07964 197 836
01239 615 085
Pencefen, Mwnt, Aberteifi
Ceredigion, SA43 1QB

# Ble ma'r rhain? Odych chi'n gwybod?

Am na ellid ymweld ag unman yn ystod y cyfnod clo rhoddodd tudalen gweplyfr Bro'r Wes Wes gyfle i bobl ymweld yn rhithiol â nifer o fannau o fewn y fro. Y gamp oedd dyfalu ble roedden nhw. Bu cryn bwslo. Odych chi'n nabod y llefydd hyn?

1


3


5


2


6


4


**Yr atebion:**

1. Eglwys Manordeifi ger Llechryd 2. Capel Tabernacl, Trewyddel, y Bedyddwyr
3. Y tro uwchben Feidr Wilym o dan Talmynydd, Mynachlog-ddu
4. Capel Newydd ger tafarn Ffynnone 5. Tafarn Bwlch, Brynberian
6. Pentre'r Glôg yng nghyfnod y Cardi Bach.

# Cynorthwyo neuaddau trwy'r Gronfa Hyrwyddo



*Rhannu llysiau o bob math wrth Neuadd Hermon*



*A'r un modd draw ym Moncath*

Mae tri chyngor a phedair neuadd gymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i ddod â gwasanaethau gwell i'r bobl leol. Derbyniodd Cynghorau Cymuned Crymych, Clydau a Boncath arian o Gronfa Hyrwyddo Sir Benfro ar gyfer rhedeg prosiect Helpu Neuaddau am flwyddyn.

Mae'r Swyddog Prosiect, Julie Payne, wedi bod yn gweithio ers diwedd mis Mawrth yn helpu'r cymunedau i ymateb i'r problemau cymdeithasol sy'n wynebu pentrefi Tegryn, Bwlch-y-groes, Boncath a Hermon. Mae'r prosiect yn gobeithio lleihau unigrwydd, cynyddu rhifau gwirfoddolwyr, ac annog mwy o bobl i ddefnyddio'r cyfleusterau cymunedol fel y neuaddau.

Mae Helpu Neuaddau wedi gweld llwyddiant yn barod - oni bai'r argyfwng iechyd Covid-19 - ar ôl cynnal cyfres o weithgareddau ym meysydd parcio'r neuaddau ym mis Ebrill a Mai. Daeth o leiaf 100 o bobl i gasglu planhigion blodau a llysiau gyda'r bwriad bod hwn yn annog pobl tyfu pethau naturiol neu iachus yn ystod y cyfnod 'cloi lawr' a hefyd cael y cyfle i weld eu cymdogion mewn lle saff, a rhannu awgrymiadau garddio!

Ar ddiwrnod 'tyfwch eich hun' ym mis Mai, daeth aelodau prosiect newydd arall mas i ymuno â'r gwirfoddolwyr lleol, i'w helpu i ddosbarthu'r planhigion llysiau, perlysiau a ffrwythau. Mae'r prosiect Tyfu Cysylltiadau Gwell yn mynd i fod yn gweithio yng ngogledd ddwyrain Sir Benfro i adfywio darnau'r tirlun ar gyfer bywyd gwyllt gan annog preswylyddion i fwynhau a gwarchod natur yn eu milltir sgwâr.

Mae'r ddau brosiect - Helpu Neuaddau a Thyfu Cysylltiadau Gwell - yn gobeithio gweithio gyda'i gilydd yn fwy yn y dyfodol gan fod y ddau yn anelu at greu cymunedau mwy iachus, a sicrhau adnoddau gwell yn ein hardal. Cadwch lygaid am fwy o weithgareddau yn y neuaddau a dros yr ardal trwy'r haf.

Am fwy o fanylion y prosiectau, cysylltwch â; Julie Payne, Swyddog Prosiect Helpu Neuaddau - helpinghalls@outlook.com neu Holly, Adam a Louise, y tîm Tyfu Cysylltiadau Gwell/Growing Better Connections - gbc@cwmarian.org.uk




*Chwarae teg i Crwst yn Aberteifi am ddefnyddio'r holl wydr yna i dynnu sylw at un o faterion pwysicaf ein hoes. Mae'r neges yn syml ond yn bwerus.*

**CYNGOR CYMUNED MYNACHLOG-DDU**

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer y swydd o

**CLERC**

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddianus fod yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg.
Bydd gwybodaeth o gadw cyfrifon yn fanteisiol.
Manylion pellach oddi wrth-
Cyng. Hywel Vaughan, Llwyncelyn, Llangolman, Clunderwen SA66 7XP
(Ffôn: 01437 53239)

# CHWARAEON

## Cymru 4  Lloegr 4 – yn Qatar



*Tîm rhyngwladol Cymru wynebodd Lloegr mas yn Doha. Rhydian Wyn yw'r ail o'r dde yn y tu blaen.*

Odi, mae'r coronafeirws wedi rhoi taw ar chwaraeon ar draws y byd gan gynnwys Pencampwriaeth y Tair Gwlad mas yn Qatar yn y Dwyrain Canol. Ar ôl colli o 2 i 0 yn erbyn Iwerddon a chael gêm gyfartal yn erbyn y ffefrynau, Lloegr, roedd y Cymry yn llawn gobeithion o sicrhau buddugoliaeth yn erbyn yr Alban. Ond ni chafwyd y cyfle i'w herian ac mae'n anhebygol y caiff y gêm ei chynnal nawr am y bydd y tymheredd yn rhyw dwym mas yno erbyn daw'r gwaharddiad i ben yn anterth yr haf.

Yn y gêm yn erbyn Lloegr yr enillodd Rhydian Wyn o Grymych ei 'gapan' cyntaf dros ei wlad. Chwaraeodd y gŵr 29 oed, sy'n gyfreithiwr mas yna, yn yr amddiffyn er mai fel ymosodwr yr arferai chwarae dros Clarbeston Road yn ei ieuenctid. Ofna ei fod wedi colli ei gyfle i ennill rhagor o gapiau.

Fe fydd mewn cwmni da os mai dyna fydd ei dynged o gofio am chwaraewyr fel Tom Walley, Tony Rees, Jason Rees, Shaun McDonald, Brian Law, David Felgate, Christian Edwards ac Owain Fôn Williams.

O ran y tîm a gynrychiolodd Gymru mae'r mwyafrif ohonyn nhw'n athrawon neu yn hyfforddwyr campfa a rhyw draean yn Gymry Cymraeg. Cyfaddefa Rhydian nad yw'n sicr o bedigri rhai ohonyn nhw i chwarae dros Gymru. "Mae rhywbeth yn debyg i'r cyfnod pan oedd Bobby Gould yn rheoli Cymru rhwng 1995 a 1999 ac yn dewis chwaraewyr fel Vinny Jones," meddai.

Braf gweld y Ddraig Goch yn cael ei chwifio ar berci pêl-droed caled Doha. Cynhelir Cwpan y Byd yno yn 2022 wrth gwrs.

## Ciniawa ar Zoom a dyrchafiad!

Roedd yna naws rhyngwladol i Ginio Blynyddol nad oedd yn Ginio Blynyddol mewn gwirionedd Clwb Pêl-droed Crymych ar nos Wener, Mai 29 ar derfyn eu tymor cyntaf ers ei ffurfio.

Ni fentrodd yr un o'r Bustych o'u cartrefi ond daethpwyd ynghyd trwy gyfrwng Zoom. Â phawb yn bwyta creision neu Bringles a chymryd ambell lwtsen ar eu pennau eu hunain gan fwynhau cyflwyniad pwerbwynt gan Dyfan Dafydd yng nghanol y raldibw.

Yn ymuno â nhw i gyflwyno'r gwobrau roedd y chwaraewyr rhyngwladol Dave Edwards ac Angharad James. Enillodd Dave 43 o gapiau dros ei wlad ac mae Angharad, sy'n hanu o Landysilio ac yn gyn-ddisgybl Ysgol y Preseli wrth gwrs, eisoes wedi gwisgo'r crys coch 79 o weithiau.

Enillwyr y gwobrau oedd: Prif Sgoriwr - Siôn Vaughan (18 gôl); Chwaraewr Ifanc y Tymor - Deiniol Mathias; Chwaraewr y Chwaraewyr - Osian Wyn; Chwaraewr y Rheolwr - Gethin Evans; Cynorthwywyr y Clwb - Nigel a Iona James

Yn gopsi ar y noson cafwyd cyfarchion ar fideo wrth Richard Keys ac Andy Gray sy'n cyflwyno rhaglen pêl-droed ar sianel deledu Al Jazeera yn y Dwyrain Canol. Roedd hynny wedi'i drefnu gan Rhodri Ogwen a Rhydian Wyn.

Bydd talcen caled yn wynebu'r tîm pan ganiateir chwarae drachefn am eu bod wedi sicrhau dyrchafiad i Adran 1 Cynghrair Costcutter.



*Angharad James*



*Dave Edwards*